**Rhif Cofrestru'r Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol: 21194R**

# Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

# ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

## ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL 2025

## CYNNWYS


| CYNNWYS | Tudalen |
|---|---|
| **Manylion cyfreithiol a gweinyddol** | **3** |
| **Adroddiad y Bwrdd Rheoli** | **4** |
| **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol** | **25** |
| **Datganiad Incwm Cynhwysfawr Cyfunol** | **28** |
| **Datganiad Incwm Cynhwysfawr y Gymdeithas** | **29** |
| **Datganiad Sefyllfa Ariannol Gyfunol** | **30** |
| **Datganiad Sefyllfa Ariannol y Gymdeithas** | **31** |
| **Datganiad Newidiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn Cyfunol** | **32** |
| **Datganiad Newidiadau yng Nghronfeydd wrth Gefn y Gymdeithas** | **33** |
| **Datganiad Llif Arian Cyfunol** | **34** |
| **Nodiadau sy'n cyd-fynd â'r Datganiad Ariannol** | **35** |

# MANYLION CYFREITHIOL A GWEINYDDOL

## SWYDDFA GOFRESTREDIG

Tŷ Silyn
Y Sgwâr
Penygroes
LL54 6LY

## AELODAU'R BWRDD RHEOLI

| | | |
|---|---|---|
| Tim Jones | Cadeirydd | |
| Siôn Fôn | Is-Gadeirydd | |
| Llinos Iorwerth | | |
| Mike Corfield | | |
| Jane Lewis | | |
| David Lloyd | | |
| Nigel Finney | | |
| Ken Beech | | (cyfetholwyd Medi 2023) |
| Tony Oakley | | (cyfetholwyd Medi 2023) |
| Delyth Lloyd | | |
| Paul Robinson | | |
| Sally Baxter | | |
| David Lewis | | (cyfetholwyd Medi 2024) |

## Prif Dîm Arweinyddiaeth

| | |
|---|---|
| Melville Evans | Prif Weithredwr |
| Nia Rhian Owen | Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Sion Gethin Roberts | Cyfarwyddwr Eiddo a Buddsoddi |
| Sharon Morris | Cyfarwyddwr Cymdogaethau |
| Nerys Price-Jones | Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant |
| Elfyn Owen | Prif Swyddog Canllaw |
| Lynda Colwell | Prif Swyddog Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych |

## YSGRIFENNYDD Y CWMNI
Helen Wyn Jones

## BANCWYR
Barclays
PO Box 3333
One Snowhill
Snowhill Queensway
Birmingham
B3 2WN

## ARCHWILYDD
Beever and Struthers
The Colmore Building
20, Colmore Circus Queensway
Birmingham
B4 6AT

## STATWS CYFREITHIOL
Cofrestredig dan y Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014
Cofrestredig gyda Llywodraeth Cymru, Rhif L029
Mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu rheolau elusennol

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

### Cefndir

Yn ystod y flwyddyn, llwyddodd Grŵp Cynefin i adennill statws o gydymffurfio gan y Rheoleiddiwr Tai Cymreig. Hysbysodd Grŵp Cynefin bryderon a risgiau arwyddocaol yng nghyswllt gwasanaethau i denantiaid a llywodraethu i'r rheoleiddiwr ym mis Mawrth 2023, a arweiniodd at newidd y Dyfarniad Rheoleiddio i 'Felyn – ddim yn cydymffurfio' o ran Llywodraethau a Gwasanaethau i Denantiaid a 'Melyn – yn cydymffurfio' o ran Hyfywedd Ariannol. Gwnaeth gytuno ar Ymrwymiad Gwirfoddol ym mis Mai 2023 hefyd.

Yn dilyn gweithredu Cynllun Gwella Busnes Cynhwysfawr cafodd y Dyfarniad Rheoleiddio am Grŵp Cynefin ei ddiwygio i 'Felyn – yn cydymffurfio' o ran Hyfywedd Ariannol a Llywodraethu a Gwasanaethau i Denantiaid. Roedd hyn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn gwella'r data ynghylch ein stoc a chael sicrwydd ynghylch asedau'n cydymffurfio. Mae mynd i'r afael â'r gwaith sy'n weddill yn y Cynllun Gwella Busnes wedi bod yn flaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Corfforaethol 2024-25. Yn sgîl y cynnydd cadarnhaol a wnaed, mae Grŵp Cynefin bellach yn gweithio tuag at ddiwygio'r farn rheoleiddiol yn ystod 2025-26 a chael cymeradwyaeth ffurfiol gan y gweinidog i ymddatod o'r Ymrwymiad Gwirfoddol.

## Cynllun Corfforaethol Newydd 2025-28 Lle i Berthyn

Lansiwyd **Cynllun Corfforaethol newydd, 'Lle i Berthyn 2025-28'** ar 1 Ebrill 2025. **Mae'r Cynllun newydd yn adeiladu ar y Cynllun Corfforaethol blaenorol (2019-24)** ac yn rhoi fframwaith strategol a gweithredol newydd i ddatblygu sefydliad gwydn, modern gyda ffocws clir. Mae'n cyd-fynd yn agos â pholisïau Llywodraeth Cymru, ar bob lefel o'r busnes. Fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2025.

Y **Weledigaeth Strategol** ddiwygiedig yw '*bod yn sefydliad cynhwysol ac effeithiol sy'n darparu cartrefi diogel, cynaliadwy, o ansawdd'*

**Datganiad Cenhadaeth** diwygiedig Grŵp Cynefin yw: '*Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy ganolbwyntio ar ddarparu cartefi diogel, cynaliadwy o ansawdd uchel, drwy:*

- *Fod yn ddarparwr tai sy'n perfformio ar y lefel uchaf*
- *Parhau i fod yn sefydliad cymunedol a chydweithredol sy'n grymuso ein tenantiaid, cwsmeriaid, staff a chymunedau i ffynnu.*
- *Bod yn sefydliad cynhwysol, sy'n hyrwyddo a dathlu ein hunaniaeth Gymreig a'r Gymraeg.*

Y **Gwerthoedd a'r Ymddygiadau** newydd diwygiedig yw:

- ***Tryloyw****; 'Rydyn ni'n agored, yn glir, a bob amser yn gweithredu gyda gonestrwydd'*
- ***Cynhwysol****: 'Rydyn ni'n meithrin amgylchedd lle mae pob unigolyn yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei barchu a'i gefnogi'*
- ***Blaengar****: 'Rydym ni'n ddeinamig, yn wydn, a byddwn yn cwrdd â heriau a chyfleoedd y dyfodol yn hyderus.*

Y Blaenoriaethau Strategol diwygiedig yn y Cynllun Corfforaethol newydd, 'Lle i Berthyn', yw:

- **Tenantiaid a Chwsmeriaid**: Byddwn yn darparu gwasanaeth cwsmer rhagorol i bawb
- **Cartrefi**: Byddwny n canolbwyntio ar ddarparu cartrefi diogel a chynaliadwy o ansawdd
- **Pobl:** Byddwn yn adeiladu gweithlu arloesol, cynhwysol a rhagweithiol
- **Cymunedau**: Byddwn yn bartner strategol dibynadwy a gwydn
- **Busnes**: Byddwn yn moderneiddio ein model gweithredu i gryfhau cysylltedd busnes a gwytnwch ariannol ar draws y grŵp

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

### YR HYN A GYFLAWNWYD YN 2024-25

Isod ceir trosolwg o'r cynnydd mewn meysydd allweddol yn ystod 2024-25.

**Nod 1. Rhoi ein Cynllun Gwella Busnes ar waith**

Drwy gydol 2024-25 parhaodd Grŵp Cynefin i ganolbwyntio ar gyflawni a chasglu tystiolaeth o'r gwelliannau parhaus i'w wasanaethau, ac i gwblhau holl ofynion yr Ymrwymiad Gwirfoddol, gan roi diweddariadau rheolaidd i'r Rheoleiddiwr ynghylch y cynnydd.

Derbyniodd y Bwrdd adroddiad ym mis Mai 2025 yn cadarnhau bod yr holl adolygiadau a oedd yn ofynnol yn yr Ymrwymiad Gwirfoddol wedi'u cwblhau, a'r adolygiadau ychwanegol a ddeilliodd ohonynt hefyd, sef yr adolygiadau isod:

- Hyfywedd Ariannol
- Llywodraethu
- Y Model Busnes
- Rheoli Risgiau
- Mwy na Thai

Mae Grŵp Cynefin wedi cytuno i ddarparu adroddiad annibynnol (gan Mazars, yr archwilwyr mewnol) i'r Rheoleiddiwr yn rhoi tystiolaeth fod holl argymhellion y Cynllun Gwella Busnes a'r adolygiadau wedi'u gweithredu, a bydd hyn yn cyd-fynd â'r broses hunanwerthuso i'w chynnal yn ystod chwarter 3 yn 2025-26.

Penodwyd Prif Dîm Arweinyddiaeth parhaol newydd yn ystod chwarter 3 yn 2024-25. Gwnaed rhagor o waith ailstrwythuro'r strwythur staff i sicrhau gwella'r ffyrdd o weithio a sicrhau cyd-fynd yn effeithiol â nodau strategol y Cynllun Corfforaethol newydd.

Sefydlwyd Fframwaith Sicrwydd newydd i'r Bwrdd ar ran y Grŵp, sy'n cefnogi'r strwythur pwyllgorau newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2025. Mae'r strwythur newydd yn cynnwys y pwyllgorau a ganlyn:

1. Archwilio a Risg
2. Gweithrediadau
3. Tenantiaid
4. Pobl

**Nod 2: Cartrefi o ansawdd uchel**

Y prif faes yn ystod y 24 mis diwethaf oedd gwella cofnodion data i roi sicrwydd ynghylch cydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch. Sefydlwyd amserlen, y cytunwyd arni gan y Bwrdd a'r Rheoleiddiwr, i sicrhau cydymffurfio mewn meysydd allweddol, yn cynnwys diogelwch tân, nwy, adroddiadau cyflwr gosodiadau trydanol (EICR), Legionella, radon a lifftiau. Roedd adroddiadau cynnydd a pherfformiad misol ('y Dangosfwrdd Cydymffurfio') yn dangos bod gwelliannau'n parhau o ran cydymffurfio. Nodir y manylion isod. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol.

Elfen bwysig arall oedd cynnal rhaglen gynhwysfawr o arolygon cyflwr stoc ar bob un o'n heiddo, gyda'r nod o gyrraedd 100% (gan ganiatáu am achosion o fethiant mynediad). Erbyn mis Ebrill 2025 roedd 86% o'n stoc wedi'i harolygu, ac mae'r system Rheoli Asedau wedi'i phoblogi, wedi iddi fynd drwy wiriadau sicrwydd ansawdd gan gwmni allanol. Byddwn yn defnyddio'r data hwn i sicrhau ein bod yn cyflawni 100%, a byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth am y stoc yn parhau'n gywir drwy raglen o arolygu 20% o'r stoc yn flynyddol ar sail dreigl. Defnyddiwyd y wybodaeth hon fel sail i'r Cynllun Busnes 30 mlynedd,

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

a'r Cynllun Rheoli Asedau'n Strategol a ddatblygwyd. Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Bwrdd Rheoli ym mis Gorffennaf 2025 i'w gymeradwyo.

Mae Grŵp Cynefin yn darparu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion amrywiol tenantiaid a defnyddwyr gwasanaethau eraill. Mae'n cynnig ystod o ddewisiadau tai, megis tai cymdeithasol gyda phopeth o fflatiau, byngalos a thai â nifer amrywiol o ystafelloedd gwely, tai gwarchod, cynlluniau Gofal Ychwanegol a thai fforddiadwy sy'n cynnwys dewisiadau rhan-ecwiti amrywiol, yn cynnwys y cynllun Cymorth Prynu.

Dechreuodd Grŵp Cynefin ar ddatblygiad prosiect Llys Awelon (Rhan 2) ym mis Awst 2022. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys dymchwel yr adeilad gofal preswyl ac adeiladu 35 o unedau Gofal Ychwanegol eraill fel estyniad i gynllun Llys Awelon (Rhan 1). Roedd y datblygiad newydd Rhan 2 yn costio oddeutu £10.6M, gyda Grant Tai Cymdeithasol gwerth £7.1M a chyllid preifat gan Grŵp Cynefin yn ariannu'r datblygiad. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau nawr, ac mae'r cyfleuster newydd yn cynnig cynllun modern, carbon isel i fodloni anghenion pobl hŷn yn ardal Sir Ddinbych ar ffurf fflatiau un ystafell wely a dwy ystafell wely a mannau cymunedol megis gerddi, lolfeydd, bwyty a salon trin gwallt. Mae'r datblygiad cyfan yn darparu cyfanswm o 56 fflat.

Mae Grŵp Cynefin wedi buddsoddi mewn gwaith uwchraddio prosiect Llys Awelon Rhan 1 (a gwblhawyd yn 2012) er mwyn darparu cyswllt rhwng y ddau adeilad, a sicrhau bod y rhan gyntaf yn cyd-fynd â'r cynllun modern. Cyllidwyd gwaith Rhan 1 gan oddeutu £800K o'r Gronfa Tai â Gofal a chyllid preifat gan Grŵp Cynefin. Dechreuodd y gwaith ar y safle ym mis Medi 2024 a'i gwblhau ym mis Mehefin 2025.

Yn ychwanegol at y cyfleuster eu hun, sefydlwyd grant cymunedol gwerth £18K i roi grantiau i brosiectau a chlybiau lleol i gynorthwyo i wella bywydau a chyfleoedd yn ardal Rhuthun.

Ychwanegodd Grŵp Cynefin 55 uned newydd i'w stoc tai erbyn diwedd mis Mawrth 2025 (yn erbyn targed o 47). Daeth yr wyth ychwanegol o gynllun Maes Deudraeth, a drosglwyddwyd ynghynt na'r amserlen, i roi cyfanswm o 5,070 o unedau dan reolaeth Grŵp Cynefin neu y mae ganddo fuddiant ynddynt.

Mae'r 5,070 o unedau'n cynnwys y 4,286 o unedau rhent sydd un ai'n eiddo i Grŵp Cynefin neu'n cael eu prydlesu gan Bartneriaeth Tai Cymru, gyda'r cyfan yn cael eu rheoli gan Grŵp Cynefin; 767 o unedau marchnad canolraddol (unedau 'Cymorth Prynu' a 'Rhan-ecwiti') y mae gan Grŵp Cynefin fuddiant ynddynt, ac 17 uned sy'n eiddo i Elusennau Elusendai, ond caiff eu rheoli gan Grŵp Cynefin.

Gwnaeth Grŵp Cynefin barhau i wneud cynnydd cryf o ran y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn ystod 2024–25, gyda 221 o gartrefi wedi'u huwchraddio yn rhaglenni 3.1 i 3.3. Cyflawnwyd y gwaith gan gontractwyr penodedig ac roeddynt yn cynnwys amrediad o fesurau effeithlonrwydd ynni sy'n cyd-fynd â Safon Ansawdd Tai Cymru 2023. Mae'r gwelliannau hyn eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar denantiaid, gan gynorthwyo i leihau costau ynni a gwella cyffyrddusrwydd eu cartrefi.

Cyfanswm y buddsoddiad oedd £4.64M, tua £24,553 fesul eiddo ar gyfartaledd. Ym mis Medi 2024 sicrhaodd Grŵp Cynefin £780K ychwanegol drwy gais am gyllid dros ben, gan gynyddu cyfanswm y grant Rhaglen Ôl-osod ar gyfer y flwyddyn i £2.5M. Daeth hyn â'r cyllid cronnol o'r Rhaglen Ôl-osod ar gyfer rhannau 3.1-3.3 i £5.43M. Mae'r gwaith yn parhau ar ddau safle, a disgwylir cwblhau'r gwaith erbyn mis Gorffennaf 2025, yn unol â'r estyniad a roddwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r Cyllid Ôl-osod, llwyddodd Grŵp Cynefin i sicrhau dros £30K o gyllid ECO 4. Er bod hyn yn is na'r targed gwreiddiol, mae'n parhau i gynrychioli gwerth ystyrlon, yn enwedig o ystyried yr heriau o ran sicrhau a chadw cyllid ECO 4 yn y farchnad gyfredol. Mae'r gwaith a gyflawnwyd gan y ddau gontractwr wedi cyfrannu'n arwyddocaol at ein hamcanion perfformiad ynni ehangach.
Rhoddwyd £310K o Grant Gweithredu Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2024-2025 ac fe'i defnyddiwyd i ehangu sgôp y rhaglen toeon. Galluogodd hyn i fwy o osodiadau paneli solar gael eu cynnwys, gan helpu

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

i wella effeithlonrwydd ynni'r eiddo a dargedwyd a'u symud yn nes at y sgoriau SAP gofynnol. Cafodd y rhaglen a ariannwyd drwy'r grant hwn ei chyflawni'n llawn o fewn y flwyddyn ariannol.

Wrth edrych ymlaen, bydd y model cyfunol o weithredu Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a'r grant Rhaglen Ôl-osod yn parhau i gefnogi cyflawni Rhaglen Ôl-osod 3.4 yn 2025–2026 a 3.5 yn 2026–2027, gyda'r cyllid ar gyfer pob rhan yn disgwyl bod tua £2M. Mae'r cais ar gyfer Rhaglen Ôl-osod 3.4 yn seiliedig ar dri chynllun gwella wedi'u cadarnhau, gyda phedwerydd cynllun wedi'i gynnwys yn amodol, pe bai cyfle arall yn codi i wneud cais am gyllid dros ben. Mae contractau ar waith gyda'r ddau gontractwr a gadwyd, gyda'r arolygon a'r asesiadau ôl-osod eisoes ar y gweill, a'r gwaith yn ddisgwyl dechrau yn fuan yng nghartrefi ein tenantiaid

Ar yr un pryd, cafodd rhaglen Gwaith Buddsoddi Cyfalaf ei gweithredu'n llwyddiannus yn 2024–25, gyda chefnogaeth tîm newydd Gwaith Asedau. Derbyniodd cyfanswm o 487 o eiddo welliannau cysylltiedig â SATC, gan gynnwys toeon, gwaith allanol, ffenestri a drysau, ceginau ac ystafelloedd ymolchi, a systemau gwresogi. Mae Polisi Cydymffurfiaeth SATC diwygiedig hefyd wedi'i gymeradwyo, gan nodi disgwyliadau clir o dan SATC 2023 a'n dull o gydymffurfio â'r Safon.

Mae'r rhaglen Gwaith Buddsoddi Cyfalaf yn parhau'n un o gonglfeini strategaeth asedau tymor hir Grŵp Cynefin. Mae defnyddio timau cyflawni'n llwyddiannus, ynghyd â lansio'r polisi diwygiedig Cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru wedi gosod sylfaen gref ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.

Mae'r gwaith hwn yn parhau i wella ansawdd, diogelwch a pherfformiad ynni ein cartref, gan sicrhau bod tenantiaid yn elwa'n uniongyrchol o'r gwelliannau hyn.

### Nod 3: Gwasanaethau Rhagorol

Mae Grŵp Cynefin yn cynnig amrediad o wasanaethau i gefnogi tenantiaid, yn cynnwys Tîm Tai a Thîm Lles i roi cymorth i denantiaid gynnal eu tenantiaeth, a gwasanaethau i bobl hŷn trwy ein cynlluniau Gofal Ychwanegol a Gorwel, ein gwasanaeth sy'n cynnig cymorth i'r rhai sy'n ddigartref a'r rhai sy'n wynebu cam-drin domestig.

Ymgartrefodd dauddeg un o denantiaid hŷn mewn fflatiau ynni effeithlon yng nghynllun Gofal Ychwanegol Llys Awelon yn Rhuthun ym mis Ionawr 2025. Mae'r datblygiad yn cynnwys mannau cymunedol modern, dyluniad cynaliadwy a chynlluniau i gwblhau rhan 2 y cynllun yn ystod 2025.

Y blaenoriaethau strategol yn y maes hwn yn 2024-25 oedd gwella lefel boddhad tenantiaid, buddsoddi yn ein seilwaith digidol a pharhau i rymuso ein tenantiaid i fod yn ganolog i benderfyniadau busnes a dylanwadu ar wasanaethau.

Adolygwyd y modd rydym ni'n cynhyrchu arolygon boddhad yn ystod y flwyddyn, a bellach mae pob un yn cael ei gynhyrchu gan ein system tai. Mae hyn yn blaenoriaethu llenwi'r arolygon yn ddigidol ond mae'n cynnwys anfon holiaduron drwy ddulliau traddodiadol hefyd i'r rhai heb gyfleusterau digidol. Sefydlwyd Grŵp Cwynion a Boddhad newydd, yn cynnwys tenantiaid a staff, a fydd yn craffu ar y lefelau boddhad a'r gwersi i'w dysgu o gwynion.

Sefydlwyd adran benodol 'Dywedoch chi, Fe wnaethom ni' ar y wefan yn tynnu sylw at y newidiadau cadarnhaol a gyflwynwyd mewn ymateb i adborth gan denantiaid, gan sicrhau tryloywder, fel bod yr holl denantiaid yn medru gweld sut mae adborth wedi gwneud gwahaniaeth.
Bydd Grŵp Cynefin yn dod o dan ofynion Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019 o fis Medi 2025, a'r safonau Cwynion a gyhoeddwyd. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi data

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

ynghylch cwynion. Dechreuwyd gweithio i baratoi ar gyfer hyn yn ystod 2024-25, megis adolygu ein Polisi Cwynion, hyfforddiant i staff ac adolygu ein system casglu a chadw data.

Cwblhawyd asesiad Aeddfedrwydd Digidol yn ystod y flwyddyn gan arbenigwr allanol, i sefydlu'r achos dros newydd a hysbysu'r Strategaeth Trawsnewid Digidol newydd a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mai 2025. Enw'r strategaeth yw 'Dyfodol Cynefin – Ein Strategaeth Trawsnewid Digidol 2025-2030'. Bydd y Strategaeth yn cael ei harwain gan yr Adran Gwella Busnes a luniwyd yn ystod y flwyddyn. Bydd y Strategaeth yn cefnogi cyflawni'r Cynllun Corfforaethol, ac mae'n nodi'n glir ein huchelgais i ddefnyddio technoleg ddigidol yn y ffyrdd sy'n rhoi mwyaf o fudd i'n tenantiaid, ein cwsmeriaid a'n staff. Bydd hyn yn ysgogi effeithlonrwydd ac yn symleiddio prosesau a byddwn yn sicrhau bod ein systemau yn ddiogel ac yn gynaliadwy. Egwyddorion arweiniol y strategaeth yw:

- Datrysiadau digidol penodol i **denantiaid a chwsmeriaid** eu defnyddio
- Systemau **diogel**; diogelu ein diogelwch seiber
- Defnyddio **Microsoft yn Gyntaf** ac ymchwilio i'r hyn mae Microsoft yn ei gynnig cyn caffael systemau a phecynnau newydd i sicrhau nad oes dyblygu
- Defnyddio'r **Cwmwl yn Gyntaf**; symud ein systemau i fod wedi'i seilio ar y we
- Gweithredu'n **Ddigidol yn Gyntaf mewn modd cynhwysol**; symud tuag at ymgysylltu digidol yn gyntaf gyda thenantiaid a chwsmeriaid, gan barhau i ddiogelu'r dulliau cyfathrebu traddodiadol
- **Gwreiddio gwneud penderfyniadau ar sail data** gyda ffocws cryf ar batrymau a dadansoddi data

Hefyd yn ystod y flwyddyn cydgynhyrchwyd strategaeth cynnwys tenantiaid newydd gyda thenantiaid a staff. Cafodd Strategaeth Eich Llais, Eich Cartref, Eich Cymuned ei chymeradwyo mewn egwyddor gan y Pwyllgor Tenantiaid ym mis Mehefin 2025, a gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025. Yn ychwanegol at y strategaeth newydd, cynhyrchir adroddiad Llais y Tenantiaid yn chwarterol gan y Fforwm Tenantiaid, a gyflwynir i'r Pwyllgor Tenantiaid am gymeradwyaeth cyn rhannu'r adroddiad gyda'r Bwrdd. Mae'r adroddiad yn dangos yn glir pa feysydd yr ymgynghorwyd â thenantiaid yn eu cylch a lle y rhoesant fewnbwn ac, yn bwysicach, beth mae eu mewnbwn wedi'i newid.

Rydym ni'n cyflwyno data ynghylch bodlonrwydd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol, ac mae'n cyhoeddi adroddiad blynyddol wedi'i seilio ar y data hwn gan y sector tai. Mae Grŵp Cynefin yn cymharu â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill yng Nghymru'n gymharol dde, ac yn debyg i'n perfformiad ein hunain o'i gymharu â 2023-24.

| | 'Bodlon iawn' a 'Bodlon' wedi'u cyfuno | | 'Ddim yn fodlon nac yn anfodlon' | |
|---|---|---|---|---|
| Pa mor fodlon ydych chi â'r gwasanaethau a ddarperir? | 2024-25 **76%** | 2023-24 **81%** | 2024- 25 **9%** | 2023-24 **10%** |
| I ba raddau rydych chi'n cytuno â'r datganiad hwn: "Rydw i'n ymddiried yng Ngrŵp Cynefin." | 2024-25 **77%** | 2023-24 **73%** | 2024- 25 **12%** | 2023-24 **16%** |

Dyfarnwyd achrediad 'Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau i Gwsmeriaid' i Grŵp Cynefin (gyda phedair elfen yn cyrraedd lefel 'Cydymffurfio a Mwy') yn unol â gofynion Safonau Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau i Gwsmeriaid Swyddfa'r Cabinet ym mis Gorffennaf 2021. Adolygir hyn yn flynyddol. Byddwn yn cynnal adolygiad llawn yn ystod 2025 a phennwyd nod strategol o *'wneud y peth iawn y tro cyntaf: byddwn yn rhoi'r wybodaeth a'r offer i'n cydweithwyr ddarparu profiad cadarnhaol a llyfn pan fydd ein tenantiaid yn cysylltu â ni.'* Ein nod yw datrys 85% o ymholiadau ar y cyswllt cyntaf drwy adolygu ein **safonau cwsmeriaid** a'n polisi cwynion i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

Ymhellach, blaenoriaeth allweddol yn y Cynllun Corfforaethol newydd yw datblygu 'mapio taith y cwsmer' fel rhan graidd o Strategaeth Drawsnewid Grŵp Cynefin. Gwelir hyn fel elfen sy'n cyd-fynd â'r adolygiadau Gweithredu'n Ddarbodus, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella profiadau i'r tenantiaid a chwsmeriaid yn hytrach nag effeithlonrwyddau mewnol yn unig. Bydd yr adolygiadau Gweithredu'n Ddarbodus yn ceisio lleihau gwastraff a symleiddio gweithrediadau, nod mapio taith y cwsmer yw deall sut mae tenantiaid yn ymwneud â gwasanaethau – megis gwneud cais am gartref, hysbysu am waith trwsio neu dalu'r rhent – ac adnabod a nodi'r pwyntiau sy'n achosi poendod a chyfleoedd i wella. Y prif feysydd i'w mapio fydd:

- Gwaith trwsio ymatebol
- Cydymffurfio
- Taliadau gan gwsmeriaid
- Gwaith cynlluniedig
- Ailosod eiddo
- Tâl Gwasanaeth
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol Trwsio a gwella cartrefi**:

| | **2025** | **2024** |
|---|---|---|
| Gwaith trwsio a gwblhawyd o fewn y cyfnod targed | 83% | 82% |
| Gwaith brys a gwblhawyd cyn pen 24 awr | 97.5% | 99% |

**Gosod a rheoli eiddo**:

Cafodd 304 eiddo eu gosod yn ystod 2024-25. Roedd 40 yn gartrefi newydd a 264 yn gartrefi wedi'u hailosod, o'u gymharu â chyfanswm o 242 eiddo wedi'u gosod y llynedd, a oedd yn 18 cartref newydd a 224 cartref wedi'u hailosod. Roedd y cynnydd hwn yn ddisgwyliedig gan ein bod wedi ailosod eiddo yn dilyn derbyn arian trwy'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol.

Cyfanswm gwerth y gwaith trwsio a gyflawnwyd yn ystod 2024-25 oedd £16.5M yn erbyn cyllideb o £13.9M, heb gynnwys £2.5M o wariant wedi'i gyfalafu. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 96% o'i gymharu â blwyddyn ariannol 2023-24. Mae'r gwasanaeth trwsio ymatebol yn gyffredinol yn dangos tueddiad cadarnhaol, er gwaethaf bod yn flwyddyn frig o ran nifer y tasgau gwaith trwsio.

Mae'r perfformiad yn dangos lleihad yn y cyfnod cwblhau o 5.6 diwrnod o'i gymharu â 2023-24, gyda'r cyfnodau cwblhau wedi gwella 1% er gwaethaf cynnydd o tua 1,000 o dasgau trwsio yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn wedi arwain at gynnydd cyffredinol yn lefel boddhad tenantiaid i 92.75% (o 89.33% yn 2023-24).

| **Blwyddyn** | **Nifer y tasgau gwaith trwsio** | **Wedi'u cwblhau ar amser (%)** | **Cyfnod cwblhau (ar gyfartaledd)** | **Cost/Tasg£** |
|---|---|---|---|---|
| 2022-23 | 15,869 | 84% | 11.6 | 170 |
| 2023-24 | 15,415 | 82% | 20.00 | 173 |
| 2024-25 | 16,395 | 83% | 14.4 | 201 |

Mae'r sector wedi hysbysu am gynnydd o 11% yn y galw am waith trwsio a chostau gwaith trwsio o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, a byddwn yn parhau i edrych ar waith trwsio ymatebol a'r costau yn ystod 2025-26.
Mae nifer yr achosion o lwydni a thamprwydd wedi lleihau o'i gymharu â 2023-24, gyda chyfanswm o 99 achos ar agor ar ddiwedd mis Mawrth 2025, o'i gymharu â 237 o achosion ar agor ar ddiwedd mis Mawrth 2024. Mae'r holl achosion yn cael eu trin yn unigol ac yn parhau ar agor nes cwblhau archwiliad o'r

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

gwaith a wnaed. Mae'r hawliadau am gartrefi mewn cyflwr gwael yn parhau i gynyddu, gyda chyfanswm gwerth y taliadau oddeutu £72K.

Cwblhawyd gwaith ar 264 eiddo gwag yn ystod y flwyddyn, gyda chyfartaledd y cyfnod cyn ailosod wedi gostwng o 149 diwrnod i 141 (2023-24) ar gyfer yr holl eiddo gwag, a oedd yn cynrychioli cyfanswm colled rhent corfforaethol o 2.72% (£697K). Dyma'r perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn:

| Y math o eiddo gwag | Nifer o unedau | Nifer y dyddiau gyda'r Tîm Asedau | Cyfanswm y cyfnod ailosod |
|---|---|---|---|
| Eiddo gwag – mân waith | 174 | 25 | 42 |
| Eiddo gwag – gwaith sylweddol* | 69 | 159 | 178 |
| Eiddo gwag datblygu a gwaredu | 21 | 815 | 839 |

* Dylid nodi mai dyma effaith ymdrin â nifer uchel o eiddo gwag hanesyddol, gan ddefnyddio grantiau'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol yn bennaf.

Ar ôl adolygu'r Gwasanaeth Foidiau yn ystod 2024-25, cytunwyd i gyflawni'r isod yn ystod 2025-26:

- Penodi Rheolwr y Gwasanaeth Eiddo Gwag
- E-dendro'r contractwyr i sicrhau Gwell Gwerth am Arian, a chydymffurfiaeth â'r contract
- Cynyddu'r gweithlu mewnol (fesul 12 unigolyn, a dau brentis) i gyflawni 60% o'r gwaith ar gartrefi gwag. Ein nod yw bod wedi recriwtio erbyn chwarter 2 yn 2025-26

Tra bo'r ffigur dyledion gros yn parhau i fod yn uwch na'r targed ar 2.63% yn erbyn targed o 2.50%, bu lleihad cyson yn y ffigurau rheoli ôl-ddyledion rhent, gyda lleihad sylweddol ar ddiwedd mis Mawrth 2025 yn rhoi'r lefel ôl-ddyledion rhent isaf am dair blynedd. Roedd yr ôl-ddyledion yn £676K o'i gymharu â chyfanswm y rhent i'w gasglu, sef £25.66M.

Cyflawnwyd y gwelliant hwn yn ein perfformiad drwy gynnydd yn yr adnoddau o dimau eraill yn yr Adran Tai, gan ganolbwyntio ar ôl-ddyledion tymor byr i ryddhau swyddogion incwm i roi sylw i ôl-ddyledion uwch.

Roedd dyledion cyn-denantiaid ar ddiwedd mis Mawrth 2025 yn £149K, (0.58% yn erbyn targed o 1.00%), gyda chyfanswm o £111K o ddyledion drwg wedi'u dileu.

Yn ystod 2024–25, cofnodwyd 442 achos newydd o ymddygiad gwrthgymdeithasol o'i gymharu â 364 yn 2023–24. Nid yw hyn yn rhoi mewnwelediad i ddarpariaeth y gwasanaeth, ac un o'r meysydd ffocws ar gyfer 2025–26 fydd adolygu'r ddarpariaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan ei wella a hyrwyddo dull dim goddefgarwch. Yn ogystal, bydd ffocws ar foddhad gyda'r ddarpariaeth o ran perfformiad, gan fesur amserlenni a hyd yr achosion sy'n parhau ar agor, er mwyn cynnig mewnwelediad gwell i berfformiad cyffredinol ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ymddygiad afresymol.

### Nod 4: Gwella Bywydau

Gwnaeth Grŵp Cynefin ddarparu gwasanaethau wnaeth wella bywydau drwy ganolbwyntio ar lesiant cymunedau, grymuso tenantiaid, cartrefi cynhwysol a chymorth wedi'i dargedu at denantiaid mewn angen. Cyflawnwyd nifer o fentrau a oedd yn galluogi pobl ag amrywiaeth o anghenion i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel, yn cynnwys:

Cefnogi mentrau bwyd lleol, gweithdai llesiant a rhoi grantiau cymunedol drwy gyfrwng partneriaethau â chontractwyr.

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

Cymryd rhan weithredol yn hybu'r Gymraeg a digwyddiadau diwyllianol a sicrhau bod tenantiaid yn teimlo eu bod yn cael eu parchu ac yn cael eu cynnwys. Hefyd darparwyd gwasanaethau cymorth mewn cymunedau gwledig a chymunedau sy'n siarad Cymraeg, gan barchu sensitifrwydd diwylliannol a hygyrchedd i atal ynysigrwydd cymdeithasol a chryfhau hunaniaeth cymunedau.

Cynorthwywyd y Tîm Lles gyfanswm o 599 o denantiaid (491 yn 2023-24), gyda 2,147 o achosion ers mis Ebrill 2024 (1,958 yn 2023-24). Cyfanswm y cynnydd ariannol i'r tenantiaid oedd £1.66M, sef £23K yn fwy na ffigurau'r flwyddyn ddiwethaf. Yn ystod 2025-26 byddwn yn ymchwilio i a oes modd cofnodi'r cynnydd ariannol i denantiaid dan ddau fesur gwahanol; y cyntaf yn ystyried y cynnydd yng nghyswllt tai, ble bo'r ymyriad wedi arwain at gyllid yn uniongyrchol i Grŵp Cynefin i dalu unrhyw ôl-ddyledion rhent ar gyfrif y tenant; ac yn ail, cynnydd ariannol a ddylai gefnogi'r tenant gyda chostau byw a'u hatal rhag mynd i ddyledion, nad yw'n gynnydd ariannol uniongyrchol i'r sefydliad.

Gwnaeth Grŵp Cynefin barhau i gefnogi ei denantiaid â'r heriau costau byw cynyddol a chynyddodd ei gronfa caledi i £75K. Cafwyd 155 cais llwyddiannus i'r gronfa (cynnydd o 80% o'r flwyddyn gynt).

Mae Adroddiad Blynyddol 2024-25 y Tîm Mentrau Cymunedau yn rhoi rhestr gynhwysfawr o'u holl waith cynnwys tenantiaid a gwaith cymunedol, gyda'r enghreifftiau'n cynnwys:

- **Hyfforddiant a Chyflogaeth**; Derbyniodd 20 unigolyn gymorth, gyda phedwar tenant wedi derbyn grant Camau i Gyflogaeth gwerth £1,173.
- **Grant Costau Byw i'r Gymuned**: Cefnogwyd naw prosiect drwy gyfrwng Grant Costau Byw gwerth £4,103. Cefnogwyd prosiectau amrywiol hefyd, yn cynnwys darparu prydau bwyd fforddiadwy i bobl, creu cronfa i storio offer pêl-droed fel y gall plant fanteisio ar eitemau y mae eraill wedi darfod eu defnyddio a chefnogi Clwb Pêl-droed i ddarparu cinio i bobl leol.
- **Wardeiniaid Ynni**: Cafwyd 157 o atgyfeiriadau gan denantiaid newydd, a chysylltwyd â 127 o'r tenantiaid hynny (80.8%) oherwydd lleihad yn nifer y staff. Blaenoriaethu'r tenantiaid â'r anghenion uchaf. Mae'r Wardeiniaid Ynni wedi rhoi gwerth £5,154 o dalebau ynni i gyfanswm o 86 o denantiaid, ac wedi cynnal sesiynau galw heibio hefyd.
- **Cymorth Digidol**: Darparwyd cymorth digidol i 24 o denantiaid a 13 aelod o'r gymuned trwy gyfrwng 38 o sesiynau a gynhaliwyd ledled yr ardal weithredol. Cefnogwyd tenantiaid i chwilio am swyddi, sut i ddefnyddio rhaglenni fel Zoom i fedru ymuno mewn sesiynau a chyfarfodydd ar-lein, a llawer rhagor.
- **Credydau Amser Tempo:** Cynllun gwobrwyo yw hwn a gynigir i denantiaid sy'n cymryd rhan, gan fod eu mewnbwn yn hanfodol i siapio a llywio gwasanaethau i fodloni anghenion a disgwyliadau'r tenantiaid. Treialwyd y cynllun Credydau Amser Tempo ym mis Hydref 2024, gyda 14 o denantiaid yn cymryd rhan. Maent yn 'ennill' credydau sy'n eu galluogi i fynd i nifer o atyniadau lleol a chenedlaethol am ddim.

Mae Canllaw (Eryri) Cyf (Gwynedd a Môn) a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn is-gwmnïau Grŵp Cynefin.

- Cynorthwywyd prif wasanaethau Canllaw 2,463 o gleientiaid yn 2024-25, gyda gwaith gwerth £1.78M. Gwnaeth Canllaw gynorthwyo cleientiaid i uchafu eu hincwm drwy hawlio budd-daliadau lles yr oedd ganddynt yr hawl iddynt gwerth £485K. Roedd 96% o gleientiaid yn fodlon ag ansawdd y gwasanaethau a ddarparwyd.
- Gwnaeth gwasanaethau craidd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych gynorthwyo 5,579 o gleientiaid yn 2024-25, gyda gwerth y gwaith yn £1.45M. Cynorthwywyd cleientiaid i uchafu eu hincwm drwy hawlio budd-daliadau lles yr oedd ganddynt yr hawl iddynt gwerth £932K. Roedd

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

95+% o'r cleientiaid yn fodlon ag ansawdd y gwasanaethau a ddarparwyd.

Yn hanesyddol roedd Tai â Chefnogaeth yn cael ei reoli ar wahân i weithrediadau Tai Cyffredinol ond yn ystod 2024-25, yn dilyn cynnal adolygiadau mewnol, daethpwyd â'r gwasanaethau Tai â Chefnogaeth a alwyd yn Gorwel dan reolaeth y Gyfarwyddiaeth Cymdogaethau er mwyn:

- dod â gwasanaethau cynnal tenantiaethau a gwasanaethau cymorth o dan un arweinydd strategol,
- lleoli gwasanaethau cefnogaeth gyda'r timau tai;
- creu safon gwasanaeth cyson, a gwell, ar draws y mathau o ddeiliadaeth a'r lefelau cymorth;
- uchafu effeithlonrwydd a hwyluso gwell cyfathrebu rhwng timau.

Mae Gorwel yn cynnig trawstoriad o gynlluniau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn, ac yn bwysig iawn, atal digartrefedd. Mae'r timau'n cefnogi rhwng 500 a 550 o bobl yr wythnos ar gyfartaledd, ac mae 59 aelod o staff cyflogedig sy'n cyfateb i staff llawn amser. Mae Grant Cymorth Tai yn llunio 80% o incwm Gorwel.

Cymeradwywyd Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd Grŵp Cynefin gan y Bwrdd Rheoli ym mis Gorffennaf 2023, gydag adnoddau ychwanegu wedi'u dyrannu er mwyn cyflawni camau gweithredu cytunedig yn ystod 2024-25. Un o'r gweithredoedd allweddol oedd sicrhau achrediad penodol ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, sef yr achrediad QED (Quality in Equality and Diversity), y gobeithiwn y bydd wedi'i ddyfarnu i ni erbyn mis Medi 2025.

### Nod 5: Cynnal Cymunedau

Mae gan Grŵp Cynefin ystod o wasanaethau a phrosiectau sy'n cefnogi ac yn adfywio'r cymunedau rydym ni'n gweithio ynddynt, ac sy'n esbonio pwrpas 'Mwy na Thai'. Cynhaliwyd adolygiad o'r portffolio 'Mwy na Thai', sy'n cynnwys gwahanol brosiectau a gwasanaethau, gan ddarparydd allanol yn ystod 2024-25, er mwyn i ni fod yn glir am ddyfodol strategol y prosiectau a'r gwasanaethau hyn. Roedd adroddiad yr adolygiad yn cynnwys:

- crynodeb o bob prosiect, eu gwir gost i Grŵp Cynefin, a'u gwydnwch ariannol yn y dyfodol
- sut roeddynt yn cyd-fynd ag anghenion a disgwyliadau rhanddeiliaid a chwsmeriaid
- adolygiad o'u gwerth am arian a'u buddion i'r gymuned
- adolygiad o'r trefniadau llywodraethu a monitro cyfredol, i roi sicrwydd i'r Bwrdd

Cymeradwyodd y Bwrdd ganfyddiadau'r adroddiad ym mis Ionawr 2025, ac mae'r Prif Dîm Arweinyddiaeth wedi sefydlu gweithgor i fynd i'r afael â'r argymhellion. Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen yn dda, a rhai o'r prif weithredoedd yw:

- Roedd rhai o'r gwasanaethau'n cael eu hystyried yn wasanaethau craidd, ac maent wedi'u symud i'r Gyfarwyddiaeth Cymdogaethau
- Bydd gwaith manylach yn cael ei wneud ynghylch yr holl brosiectau a gwasanaethau, a bydd achos busnes yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ystod 2025-26 i ystyried sut maent yn ffitio yn y busnes ac yn ychwanegu gwerth i'r busnes.

Mae cynllun tai Gofal Ychwanegol Llys Awelon yn Rhuthun yn hybu bywyd cymunedol gyda gerddi a lolfeydd sy'n annog cynhwysiant, a salon trin gwallt. Gwnaeth partneriaid lleol a'r contractwr gynnig grantiau i'r gymuned hefyd i roi hwb i fuddion yn yr ardal ehangach, yn cynnwys adenillion cymdeithasol o fuddsoddi.

Dathlodd Grŵp Cynefin ben-blwydd HWB Dinbych a thai â chefnogaeth Yr Hafod yn 10 oed ym mis Rhagfyr 2024. Mae'n cynnig llety a chymorth gydag addysg, cyflogadwyedd, gofal cymdeithasol a

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

llesiant. Canmolwyd y cynllun gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai yn Senedd Cymru a ddywedodd fod "y prosiect yn hanfodol i atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc a chynorthwyo'r broses o bontio i fyw'n annibynnol mewn modd cynaliadwy.'

Mae Grŵp Cynefin yn gweinyddu'r gofrestr Tai Teg, sef y Gofrestr Tai Fforddiadwy, ar ran cymdeithasau tai, awdurdodau lleol a Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae hyn yn cynnig gwahanol ddewisiadau o ran unedau fforddiadwy, p'un ai wedi'u rhentu (rhent canolraddol) neu gymorth i brynu drwy'r cynllun Rhentu i Brynu neu eiddo rhan-berchnogaeth. Mae cyfanswm nifer yr unedau a enwebwyd drwy Tai Teg wedi cynyddu dros y saith mlynedd ddiwethaf, ac mae'r cyfartaledd tua 370 o unedau'r flwyddyn erbyn hyn.

Mae Grŵp Cynefin yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu Prosiect Iechyd a Llesiant ar gyfer ardaloedd Penygroes a Dyffryn Nantlle, sef Canolfan Lleu. Craidd y prosiect yw'r egwyddorion o weithio mewn partneriaethau cryfach i wella llesiant a symud tuag at hybu iechyd da ar y cyd, ac mae'n cynnwys ymrwymiad craidd i lunio amgylchedd llesiant newydd, gwell parth y cyhoedd i'r ardal a chynnig tai cynaliadwy wedi'i seilio ar anghenion lleol. Yn dilyn gorfod gwneud newid angenrheidiol i'r cynllun meistr gwreiddiol, a arweiniodd at oedi cyn datblygu'r cynllun, roedd yn ofynnol cynnal adolygiad dichonolrwydd newydd a diwygio'r prif gynllun. Mae'r newidiadau arfaethedig yn cael eu hasesu o ran fforddiadwyedd, gan ystyried y grantiau a nodwyd ar gyfer y prosiect hyd yma. Yn amodol ar gwblhau'r asesiad hwn, y bwriad fyddai bwrw ymlaen gyda dylunio'r cynllun a datblygu a chyflwyno Achos Busnes Amlinellol.

### Nod 6: Twf cadarn a chynaliadwy

Mae Grŵp Cynefin wedi cynnal adolygiad o sut mae'n bodloni gofynion Cod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru, gyda thystiolaeth i gefnogi ei fod yn bodloni 90.3% o'r gofynion yn llawn, gyda'r 9.7% sy'n weddill wedi'u bodoli'n rhannol (o'u gymharu â 78.5% yn 2023-24). Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi 2025. Mae'r gwelliant hwn yn dilyn adolygiad llywodraethu a gynhaliwyd gan ddarparydd allanol yn 2023-24 fel rhan o ofynion yr Ymrwymiad Gwirfoddol, ac mae'r argymhellion yn deillio o'r adolygiad wedi'u gweithredu.

Cynhaliwyd adolygiad o weithredu amcanion blwyddyn 1 y Strategaeth a'r Cynllun Pobl 2024-2027, gydag ailstrwythuro sylfaenol a recriwtio i swyddi allweddol yn yr adran Adnoddau Dynol. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu swyddi a recriwtio i swyddi'r Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant a'r Rheolwr Hyfforddiant a Datblygiad yn ystod y flwyddyn.

Sefydlwyd trefniadau peilot ar gyfer cydweithio gweithredol a masnachol rhwng Grŵp Cynefin a'i is-gwmnïau i gefnogi'r gwaith o osod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd yn ystod 2024–25, sef:

- Canllaw (tair cegin, chwe ystafell ymolchi) gwerth £48,200
- Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych (10 cegin, tair ystafell ymolchi) gwerth £80,248

Bydd y gwaith hwn yn cynyddu yn 2025-26 i:
- Canllaw (53 cegin, 68 ystafell ymolchi), gwerth £525,524.
- Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych (55 cegin, 57 ystafell ymolchi), gwerth £508,947.

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

### PRIF WEITHGAREDDAU GRŴP CYNEFIN

Fel landlord cymdeithasol cofrestredig mae Grŵp Cynefin yn:

- Rheoli mwy na 5,000 o gartrefi ar draws Gogledd Cymru a gogledd Powys.
- Darparu gwasanaethau landlord trwy rwydwaith o swyddfeydd lleol yn y Bala, Dinbych, Llangefni a Phenygroes.
- Annog tenantiaid i ddylanwadu ar berfformiad a gwella'r gwasanaethau a dderbynnir ganddyn nhw a'u cymunedau.
- Datblygu cartrefi o bob math mewn ymateb i anghenion lleol; ar gyfer teuluoedd, pobl sengl, pobl hŷn ac unigolion bregus ag anghenion cefnogaeth.
- Buddsoddodd Grŵp Cynefin dros £10.7M yn ei stoc tai yn ystod 2024-25 (2024 £7.7M). Roedd hyn yn cynnwys buddsoddi mewn cynnal a chadw arferol, cynnal a chadw cynlluniedig, archwilio a gwaith cynnal a chadw a gwaith wedi'i gyllido gan grantiau.
- Yn ystod cyfnod tair blynedd y Cynllun Corfforaethol cwblhawyd cyfanswm o 208 o unedau, yn erbyn targed o 358. Cymeradwyodd y Bwrdd 'oedi' unrhyw ymrwymiadau datblygiadau newydd yn ystod y flwyddyn, fel y gellid canolbwyntio'r adnoddau i ymdrin â gofynion yr Ymrwymiad Gwirfoddol.
- Meddu ar fuddiant yn neu'n rhan-berchen eiddo neu wedi hwyluso bron i 1000 o gartrefi marchnad ganolraddol ar gyfer pobl na fedrant brynu cartref addas ar y farchnad agored.
- Gweinyddu'r Gofrestr Tai Fforddiadwy ar ran partneriaid lleol yng Ngogledd Cymru.
- Cefnogi Hwyluswyr Tai Gwledig sy'n cefnogi ymdrechion cymunedau i gynyddu'r cyflenwad tai ar gyfer pobl leol.
- Buddsoddi ym Mhartneriaeth Tai Cymru (menter ar y cyd gyda thri grŵp tai arall), sydd wedi darparu dros 2,000 o gartrefi rhent canolraddol ychwanegol ers ei ffurfio yn 2011. Cyfanswm stoc Grŵp Cynefin ym Mhartneriaeth Tai Cymru yw 142.


Fel y crybwyllir uchod, fel grŵp o fusnesau cymdeithasol, mae Grŵp Cynefin yn darparu prosiectau a gwasanaethau yn y gymuned o dan yr is-bennawd 'Mwy na Thai' drwy gyfrwng:

- Rheoli dwy asiantaeth Gofal a Thrwsio trwy ddau is-gwmni (Canllaw (Eryri) Cyf a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych) sy'n gwneud addasiadau hanfodol i gartrefi pobl hŷn a phobl ag anableddau.
- Darparu gwasanaethau cymorth yn seiliedig ar dai trwy gyfrwng Gorwel, uned fusnes mewnol Grŵp Cynefin, sy'n galluogi unigolion a theuluoedd i fyw'n annibynnol; yn cynnwys dioddefwyr cam-drin domestig, pobl ddigartref, pobl hŷn a phobl ag anghenion cefnogaeth iechyd meddwl.
- Rheoli'r prosiect cyflogaeth a hyfforddiant galwedigaethol Wardeiniaid Ynni Cymunedol sydd bellach yn gweithredu ar draws Gogledd Cymru a Phowys.
- Rheoli Canolfan Fenter Congl Meinciau ym Mhenrhyn Llŷn, Gwynedd.
- Rheoli canolfan fenter ieuenctid HWB Dinbych yn Ninbych.
- Rheoli menter 'Y Shed' yng Ngallt Melyd, menter sydd wedi trawsnewid hen adeilad rheilffordd gwag yn ganolfan gyda siop, caffi, gwybodaeth am y dreftadaeth leol, ac unedau busnes.
- Gweithredu fel Ymddiriedolwr Corfforaethol dwy elusen elusendai, Elusen Elizabeth Owen, Llanfair Dyffryn Clwyd a Thai Ellen Glynne, Llandwrog.


Mae Grŵp Cynefin yn un o'r ychydig gymdeithasau tai yng Nghymru sy'n cynnal ei fusnes mewnol yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n hynod o falch o'r nodwedd unigryw hwn.

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

**Graff 1: Y stoc tai ar 31/03/25 – yn ôl y math o eiddo**




**Graff 2: Y stoc tai ar 31/03/25 – yn ôl awdurdod lleol**




## Materion Ariannol a Thrysorlys

Mae Grŵp Cynefin wedi mabwysiadu Polisi Rheoli Trysorlys cadarn ac mae'r Bwrdd yn cymeradwyo'r Strategaeth Trysorlys yn flynyddol. Cyflwynir adroddiadau trysorlys chwarterol i'r Pwyllgor Cyllid a Thwf sy'n dangos bod Grŵp Cynefin yn cydymffurfio'n barhaus â'i Bolisi Rheoli Trysorlys. Cymeradwywyd adolygiad o Bolisi Rheoli'r Trysorlys gan y Bwrdd Rheoli ym mis Ebrill 2025 a'i diweddarwyd ym mis Awst 2025 yn dilyn cyflwyno'r rhagolyon ariannol 30 mlynedd.

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

Yn y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025, mae portffolio benthyciadau Grŵp Cynefin yn dangos fod gan y Gymdeithas fenthyciadau gwerth £145.6M gydag oddeutu 83% o'r rhain ar gytundeb cyfradd llog sefydlog. Mae hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Trysorlys Grŵp Cynefin sy'n datgan fod angen i o leiaf 80% o'r benthyciadau fod yn rhai cytundeb cyfradd llog sefydlog. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd gan Grŵp Cynefin hylifedd digonol yn ei le am tua 38 mis, o ganlyniad i sicrhau cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn i gefnogi ein Cynllun Busnes 30 Mlynedd.

Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru cynhelir profion straen cynhwysfawr y rhagfynegiadau ariannol 30 mlynedd yn flynyddol gyda'r Bwrdd Rheoli, a thrafodir strategaethau lliniaru potensial.

Cafodd Dyfarniad Rheoleiddiol Grŵp Cynefin ynghylch Llywodraethu a Gwasanaethau Tenantiaid ei uwchraddio a'i ddiweddaru i 'Cydymffurfio – Melyn' ym mis Mai 2024. Mae'r costau eithriadol yn ystod y flwyddyn wedi'i heithrio o'r cyfamod EBITDA-MRI â dau o'n benthycwyr a rhoir manylion hyn yn Nodyn 30.

Roedd trosiant y Grŵp yn y flwyddyn yn £40M (2024 £35M) gyda £27M (2024 - £25M) yn dod o incwm rhent a thâl gwasanaeth. Roedd gwarged y Grŵp am y flwyddyn yn £1.5M (2024 - £1.3M) ac yn dilyn yr addasiad pensiwn buddiant diffiniedig a oedd yn ofynnol yn ystod y flwyddyn yn dangos enillion actiwaraidd o £0.7M (2024 colledion o £1.2M), roedd y cronfeydd refeniw wrth gefn yn £34.6M (2024 £32.5M) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r Bwrdd Rheoli yn ystyried hyn yn ganlyniad cadarnhaol am y flwyddyn. Roedd gwerth llyfr net y stoc tai yn £344M ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (2024 £327M).

### Perfformiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu

Cynhyrchodd Grŵp Cynefin ei Dystysgrif Cydymffurfio â'r meini prawf Perfformiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu dan ddarpariaethau ei gytundebau benthyca, a oedd yn dangos ei berfformiad ar 31 Mawrth 2025 yn erbyn y tri tharged perfformiad a bennwyd, sef:

i. Roedd Perfformiad Ynni eiddo newydd ar lefel Cyfartalog Tystysgrif Perfformiad Ynni 87 (yn erbyn targed o 90) a
ii. Roedd Perfformiad Ynni'r stoc sy'n bodoli eisoes ar lefel Cyfartalog Tystysgrif Perfformiad Ynni 72 (yn erbyn targed o 72); a
iii. 69 o bobl (a oedd, yn union cyn hynny, yn ddi-waith) yn cael cymorth tuag at sicrhau gwaith cyflogedig neu waith hunangyflogedig (yn erbyn targed o 40).

Yn ychwanegol at y 69 unigolyn a dderbyniodd gymorth uchod, mae Grŵp Cynefin wedi rhoi cymorth i 57 o denantiaid drwy gyfrwng Gyrfa Cymru yn HWB Dinbych.

### Yr Amgylchedd Gweithredu

Mae'r amgylchedd weithredu'n parhau i gael ei llywio gan gymysgedd o ffactorau rheoleiddiol, economaidd a chymdeithasol sy'n dylanwadu ar sut y cyflenwir tai fforddiadwy a gwasanaethau cymorth. Y prif themâu yw:

- **Adolygiad Fframwaith Rheoleiddio Llywodraeth Cymru 2024-25**: Mae'r Fframwaith ar hyn o bryd yn cael ei adolygu; gyda'r nod o foderneiddio'r safonau rheoleiddiol a sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu cymdeithasau tai yng Nghymru. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar ddiweddaru'r Model Asesu Rheoleiddiol, gan gryfhau safonau llywodraethu, cynaliadwyedd ariannol, a llais tenantiaid. Mae hefyd yn ceisio symleiddio prosesau cydymffurfio ac adrodd, gyda phwyslais cryfach ar gynnwys tenantiaid mewn penderfyniadau, safonau cadarnach o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, atebolrwydd gwell ac arweinyddiaeth foesegol, ynghyd

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

â gwell offer ar gyfer olrhain perfformiad a sicrhau ansawdd. Disgwylir i'r Fframwaith newydd gael ei lansio cyn diwedd 2025–26.

- **Pwysau Economaidd:** Costau cynyddol, yn enwedig ym meysydd adeiladu, cynnal a chadw ac ynni sydd wedi cynyddu'r gyflymach nag incwm i sawl cymdeithas dai. Mae hyn wedi arwain at ffiniau elw gweithredu tynnach a chynyddu craffu ar y cynaliadwyedd ariannol.
- **Heriau Cymdeithasol:** Mae cymdeithasau tai yn ymateb i'r galw cynyddol am dai fforddiadwy, cynnydd mewn digartrefedd a'r angen am fwy o ddewisiadau tai â chefnogaeth. Mae'r sector yn chwarae rhan allweddol yn cyflawni blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ynghylch tai a chyfiawnder cymdeithasol.

Y maes allweddol arall yw lefel arwyddocaol o ddeddfwriaeth a chanllawiau newydd sydd ar fin cael eu cyflwyno. Rydym wedi adolygu ein trefniadau mewnol mewn ymateb i hyn, i wella ein dulliau cydlynu i ddeall effaith deddfwriaeth newydd a deddfwriaeth arfaethedig yn well. Mae Prif Weithredwyr holl Gymdeithasau Tai Gogledd Cymru wedi cytuno i weithio ar y cyd yn y maes hwn, gyda Grŵp Cynefin yn noddi'r gwaith, dan arweiniad y Pennaeth Llywodraethu, gan weithio ochr yn ochr â chymdeithasau tai eraill. Bydd dod ag adnoddau ac arbenigedd at ei gilydd yn galluogi gwneud arbedion sefydliadol o ran amser ac adnoddau, ac yn bwysicach o bosibl, bydd yn hwyluso dull cyson o roi'r holl ddeddfwriaeth newydd ar waith ar draws y sector Cymdeithasau Tai. Enghreifftiau o'r ddeddfwriaeth yw:

- **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru)**: Mae cam nesaf yr achos llys wedi'i drefnu am wrandawiad yn yr Uchel Lys yn ystod mis Awst 2025. Bydd y gwrandawiad hwn yn ystyried a fydd unrhyw daliad yn ddyledus i'r tenantiaid hynny sy'n cyflwyno hawliadau am fethu â darparu copi o'r Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR). Ni ddisgwylir dyfarniad tan ddiwedd tymor yr Hydref.
- **Ofgem**: Dechreuodd swyddogaeth Ofgem fel rheoleiddiwr y sector rhwydwaith gwres ar 01/04/25. Dyma ddechrau rhannau'r fframwaith sy'n hyrwyddo Eiriolaeth i Ddefnyddwyr ac Iawndal i Ddefnyddwyr. Ni fydd Ofgem yn dechrau rheoleiddio'r sector tan fis Ionawr 2026, pan fydd rhai o'r amodau awdurdodi yn dod i rym, ond nid y cyfan. Cynlluniwyd i'r holl reoliadau fod yn weithredol ac yn cael eu gorfodi o fis Ionawr 2027. Bydd yr holl gynlluniau rhwydwaith gwres sy'n bodoli yn cael eu trin fel wedi'i hawdurdodi o 01/04/25, a bydd angen i landlordiaid cymdeithasol sicrhau bod ganddynt weithdrefnau cwynion priodol. Anogir yr holl Gymdeithasau Tai i gofrestru â'r Ombwdsmon Ynni wrth i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym. Disgwylir i Ofgem ryddhau ymgynghoriad ar y cynllun Sicrwydd Technegol y Rhwydwaith Gwres ym mis Mehefin 2025. Bydd hyn yn ei gwneud yn orfodol cydymffurfio â gofynion technegol isafswm, megis inswleiddio pibellau a thymheredd llif dŵr, a lefelau isafswm perfformiad a dibynadwyedd.
- **Deddf Digartrefedd**: Disgwylir i'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) gael ei gyflwyno gerbron y Senned, a bydd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Tai a Llywodraeth Leol yn gyntaf, a fydd yn agor ymgynghoriad ar gynigion y Bil ac yn croesawu sylwadau. Bydd Cartrefi Cymunedol Cymru yn gweithio gyda'r holl aelodau ac yn cydlynu ymateb ar ran y sector. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru hefyd yn cydlynu trafodaeth ar safiad y sector a'i ddull o ymdrin â'r ddeddfwriaeth digartrefedd.
- **Cyfraith Awaab**: Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei ymgynghoriad ynghylch pennu amserlen i landlordiaid tai cymdeithasol ymateb i hysbysiadau am beryglon sy'n meddu ar effaith arwyddocaol ar iechyd. Yn Lloegr mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cymryd camau i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol yn Lloegr i fynd i'r afael â phroblemau tamprwydd a llwydni yn unol ag amserlenni penodol. Cyfeirir at hyn fel Cyfraith Awaab, ac mae'n cael ei ddeddfu gan y Ddeddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023. Yng Nghymru mae Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ynghylch llunio rheol a fydd yn ffurfio rhan o Safon Ansawdd Tai Cymru. Y bwriad yw y bydd landlordiaid cymdeithasol yn cyhoeddi amseroedd ymateb i beryglon y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai ac i adrodd am eu perfformiad fel rhan o'r datganiad cydymffurfiaeth â Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

wrthi'n datblygu ymateb gyda'i holl aelodau. Mae'n cynnal trafodaethau manwl gyda'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol hefyd, er mwyn deall yr ymateb yn Lloegr.

Mae **etholiad y Senedd yn 2026** yn debygol o ailsiapio'r tirwedd gwleidyddol a'r tirwedd polisi yng Nghymru, ac mae cymdeithasau tai yn debygol o deimlo'r effeithiau ar draws meysydd llywodraethu, cyllido a blaenoriaethau strategol, er enghraifft, trwy'r isod:

- **Blaenoriaethau Cyllido a Buddsoddi**: Gallai newidiadau yn yr arweinyddiaeth arwain at ddyraniadau cyllideb newydd ar gyfer tai fforddiadwy, rhaglenni ôl-osod neu wasanaethau cymorth i denantiaid. I'r gwrthwyneb, gallai ansicrwydd ynghylch cyllido ei gwneud yn ofynnol i gymdeithasau tai ailasesu cynlluniau ariannol a'r risgiau a wynebir.
- **Datganoli a Lleoliaeth**: Wrth i'r Senedd ehangu i gynnwys 96 aelod a mabwysiadu system bleidleisio newydd, gellid cael cynrychiolaeth ranbarthol gryfach a mwy o leisiau amrywiol yn dylanwadu ar y polisi tai. Gallai cymdeithasau tai elwa o gysylltiadau agosach ag etholaethau lleol neu wynebu tirwedd mwy cymhleth o ran rhanddeiliaid.
- **Craffu cyhoeddus a gwleidyddol**: Mae ymgyrchoedd etholiad yn aml yn canolbwyntio ar faterion tai. Gallai cymdeithasau tai ganfod eu hunain o dan y chwyddwydr o ran lefelau rhent, cyflogau uwch swyddogion a sut y darperir gwasanaethau, yn enwedig os yw tai yn dod yn un o themâu canolog yr etholiad.

### Cydymffurfio â gofynion Iechyd a Diogelwch

Fel y crybwyllwyd, cynhaliodd Grŵp Cynefin adolygiad mewnol o reoli asedau a chyfrifoldebau iechyd a diogelwch landlord ar ddiwedd mis Mawrth 2023, gan ei bod yn amlwg nad oedd y cofnodion a'r prosesau cywir yn bodoli i ddarparu sicrwydd llawn ynghylch data cydymffurfio. Parhawyd i ganolbwyntio ar hyn drwy gydol 2024-25, gan wella ein perfformiad cydymffurfio, mynd i'r afael â'r sefyllfa ynghylch Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR) wrth leihau'r gwaith nodwyd o'r Asesiadau Risg Tân a dechrau cynnal profion Radon.

Y Dangosydd Perfformiad Allweddol corfforaethol ar gyfer Cydymffurfio fel Landlord yw **99.63%,** ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd lefel cydymffurfio Grŵp Cynefin o ran Diogelwch Nwy yn 100%.

Roedd y camau cadarnhaol eraill yn ystod 2024-25 yn cynnwys:

- Cymhwysedd staff: cynhaliwyd hyfforddiant penodol ynghylch Asbestos a Diogelwch Tân ochr yn ochr â'n hyfforddiant arall.
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) a thystysgrifau Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR): cyflwynwyd system rheoli tystysgrifau TCW (porth sy'n rheoli a gwirio dogfennau) a system bostio i sicrhau bod tystysgrifau'n cael eu darparu o fewn yr 14 diwrnod sy'n ofynnol. Cyflogwyd Goruchwyliwr Trydanol a Mecanyddol i gynyddu'r cymhwysedd cyffredinol yn y maes hwn.
- Systemau solar – trwsio systemau solar nad ydynt wedi gweithio ers sawl blwyddyn.
- Diogelwch Tân – trefnu a mynd i'r afael â chynllun gweithredu adferol sy'n arwain at leihau'r gwaith adferol yn deillio o asesiadau diogelwch tân. Gwnaethant leihau o 989 ym mis Medi 2023 i 131 ar ddiwedd mis Mawrth 2025. Rydym wedi gosod 14 o systemau larwm tân newydd yn ystod y flwyddyn, 231 o ddrysau tân ac mae rhaglen wella barhaus wedi'i llunio ar gyfer 2025/26.
- Datblygwyd broses â chontractwyr ynghylch larwm synwyryddion CO/Mwg a aeth yn weithredol ar 01/04/25 gan ein galluogi i adrodd o'r gronfa ddata *fyw* Power BI, gan wella'r sicrwydd cydymffurfio.
- Radon – cyflwynwyd rhaglen o waith gyda monitorau wedi'u cyflwyno i dros 1,000 o eiddo risg uchel, a rhagor o waith yn digwydd i gynyddu'r gyfradd cyflwyno datganiadau.
- Adolygu polisïau Cydymffurfio, yn cynnwys y Polisi Lifftiau Corfforaethol, y Polisi Diogelwch Tân a'r Polisi Diogelwch Trydanol.

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

Un o'r prif heriau sy'n effeithio ar y tîm yw diffyg mynediad. Fodd bynnag, adolygwyd y Polisi Diffyg Mynediad gan gydweithio'n agos â'r Tîm Tai, gan bwysleisio i'r staff bwysigrwydd dilyn camau cyfreithiol ar fyrder.

### Diogelu a thrais domestig

Mae gan Grŵp Cynefin gyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo lles tenantiaid, ac mae staff mewn sefyllfa dda i nodi materion cam-drin yng nghartref y teulu ac yn y gymuned ehangach, gyda gwybodaeth am anghenion lleol, ochr yn ochr â mynediad at wybodaeth benodol am deuluoedd, a mynediad i gartrefi. Adolygwyd y Polisi Diogelu ym mis Mehefin 2025, ac mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd.

### Staff Grŵp Cynefin

Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd y dangosyddion perfformiad allweddol ynghylch staff fel a ganlyn:

| | Y Grŵp | | Y Gymdeithas | | Canllaw | | Gofal a Thrwsio | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2025 | 2024 | 2025 | 2024 | 2025 | 2024 | 2025 | 2024 |
| Nifer cyfystyr â llawn amser | 279 | 277 | 232 | 234 | 24 | 22 | 23 | 21 |
| Nifer ar ddiwedd y flwyddyn | 316 | 323 | 268 | 278 | 25 | 24 | 23 | 21 |
| Gwryw | 91 | 90 | 67 | 68 | 11 | 11 | 13 | 11 |
| Benyw | 225 | 233 | 201 | 210 | 14 | 13 | 10 | 10 |

Roedd ystadegau presenoldeb y staff ar ddiwedd Chwarter 4 yn 99.77% yn erbyn targed a bennwyd o fod yn uwch na 97.3%, gyda'r trosiant staff yn 4.04% yn erbyn targed o 7.15%. Bwriedir pennu Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer cyflogeion newydd i wella'r monitro a'r mewnwelediad.

Mae gan Grŵp Cynefin staff talentog a llawn cymhelliant sydd wedi ymrwymo i alluogi'r sefydliad i gyflawni amcanion ei Gynllun Corfforaethol, a darparu'r gwasanaethau gorau i'w gwsmeriaid.

Cryfhawyd y Tîm Adnoddau Dynol ymhellach i sicrhau bod y Strategaeth Pobl yn adlewyrchu'r Cynllun Corfforaethol yn llwyr, a chyflawni'r cynllun, gyda ffocws allweddol at dair blaenoriaeth strategol:

1. Gwella'r Diwylliant a Llesiant drwy annog a gwreiddio'r Strategaeth Pobl a'r Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
2. Creu a meithrin amgylchedd sy'n canolbwyntio ar ddysgu a chyflawni.
3. Ysbrydoli amgylchedd gweithio modern ac ystwyth.

### Dulliau o reoli risgiau a chwant am risg

Adolygwyd systemau rheoli risgiau Grŵp Cynefin a'u gwella'n sylweddol yn ystod 2024-25, yn dilyn dau adolygiad gan ddarparwyd allanol:

- Rheoli Risgiau Strategol, a ddeilliodd o ofynion yr Ymrwymiad Gwirfoddol
- Archwiliad mewnol Rheoli Risgiau Gweithredol

Mae rhai o'r newidiadau allweddol yn cynnwys sefydlu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd, sy'n darparu dull strwythuredig a strategol o fonitro a rheoli risgiau allweddol. Prif amcanion y Fframwaith oedd rhoi eglurder ynghylch y risgiau strategol allweddol, cynorthwyo'r Bwrdd i ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf a thrwy hynny roi hyder yn y prosesau gwneud penderfyniadau, yr atebolrwydd a thryloywder.

Mae'r gofrestr risgiau yn parhau i ddefnyddio'r dull 'tair llinell amddiffyn' yn achos risgiau, ond adolygwyd y gofrestr i gynnwys llawer llai o risgiau, gan roi gwell eglurder a'r gallu i ganolbwyntio ar y gwir risgiau allweddol, gyda llai o sylw i'r glo mân. Rhoddwyd hyfforddiant i'r staff, ac adolygwyd a lledaenwyd y gweithdrefnau. Adolygwyd y papurau a gyflwynir i'r Bwrdd hefyd, a chryfhau'r trefniadau monitro mewnol. Cynhaliwyd ymarfer i fesur chwant am risg y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024, a fydd yn cael ei adolygu yn ystod mis Gorffennaf 2025.

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

Mae'r prif risgiau'n cynnwys: diffyg hyfywedd ariannol, diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, methiant i ddarparu gwasanaethau effeithiol i denantiaid neu ddefnyddwyr gwasanaethau, methiant i gynnal busnes effeithiol a niwed i enw da'r sefydliad. Mae mesurau rheoli yn eu lle ar gyfer yr holl risgiau a nodwyd i liniaru neu reoli eu heffaith ar y Grŵp, yn ogystal â chamau gweithredu i leihau sgorau risgiau i'r sgorau targed.

Mae risgiau strategol cyfredol Grŵp Cynefin yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn chwarterol, gan roi trosolwg strategol i'r Bwrdd bob chwarter.

### Rheolaeth Ariannol Fewnol

Yn unol â Chylchlythyr Cymdeithasau Tai Llywodraeth Cymru – 'RSL 02/10: Rheolaethau ac adrodd mewnol', mae'r Bwrdd Rheoli yn cydnabod ei fod yn gyfrifol am system rheolaeth fewnol y grŵp ac am ddiogelu asedau'r Grŵp, ac felly, am gymryd camau rhesymol er mwyn amddiffyn rhag a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Mae'r Bwrdd Rheoli yn caffael gwasanaethau Archwilydd Mewnol annibynnol, er mwyn rhoi gwerthusiad gwrthrychol iddo a barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y broses rheoli risgiau a rheolaeth fewnol y Grŵp. Yr Archwilydd Mewnol cyfredol yw Mazars, a ddechreuodd ddarparu'r gwasanaeth ar 01/04/22 am gyfnod o dair blynedd. Cafodd eu cytundeb ei ymestyn yn ffurfiol am 12 mis gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn 2024-25.

Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn cael ei gymeradwyo'n flynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Archwilwyr Mewnol ar gontract allanol sy'n cyflawni'r cynllun archwilio mewnol, a chyflwynir yr adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Risg i'w cymeradwyo. Mae'r cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion hefyd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg bob chwarter. Mae'r cynllun Archwilio Mewnol yn seiliedig ar gydbwysedd o asesiadau risg a systemau, ac mae wedi'i gynllunio i adolygu'r system rheolaeth fewnol ar bob agwedd ar weithgareddau'r grŵp. Mae'r adolygiadau wedi'u cynllunio i roi sicrwydd rhesymol, ond nid absoliwt, ynghylch:

- dibynadwyedd y wybodaeth ariannol a gyflwynir ac a ddefnyddir gan y Grŵp;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir; a
- diogelu asedau'r Grŵp rhag unrhyw gamddefnydd.

Y gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu ac sydd wedi'u cynllunio i ddarparu rheolaethau ariannol mewnol effeithiol yw:

- rheoliadau ariannol ysgrifenedig ac awdurdodau dirprwyedig
- systemau cynhwysfawr o adrodd ariannol gan gynnwys cyllidebau blynyddol a chyfrifon rheoli chwarterol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd, sy'n dangos perfformiad gwirioneddol yn erbyn y gyllideb ac yn tynnu sylw at unrhyw amrywiadau;
- adroddiadau archwilio mewnol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, hefyd y cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion;
- strwythurau rheoli ac adrodd wedi'u diffinio'n glir;
- Cynllun Busnes pum mlynedd wedi'i ddiwygio'n flynyddol gan ymgorffori rhagolygon ariannol,
- rhagolwg ariannol 30 mlynedd a adolygir yn flynyddol, sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, a gyflwynir iddynt yn flynyddol, sy'n allosod cyfeiriad ariannol y Grŵp

Cytunwyd ar Ddangosydd Perfformiad Allweddol yn ystod 2024-25 ynghylch targed gweithredu argymhellion archwilio mewnol, a oedd yn 90% ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

### Busnes Hyfyw

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

Mae Bwrdd y Grŵp yn meddu ar ddisgwyliad rhesymol fod ganddo adnoddau digonol i barhau i weithredu am gyfnod o 12 mis o leiaf o ddyddiad yr adroddiad hwn. Mae'r cwmni wedi adolygu ei gynllun busnes a chynnal profion straen ac wedi adolygu ei fesurau lliniaru i sicrhau y gall gyflawni ei ymrwymiadau o dan senarios anodd amrywiol. Felly mae'n parhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiad ariannol, ar sail hyn.

### Llywodraethu Corfforaethol

Mae Bwrdd Rheoli Grŵp Cynefin yn cyfarwyddo gweithredoedd y gymdeithas yn unol â'i hamcanion a'i rheolau ac mae ganddo' r prif gyfrifoldeb am strwythur llywodraethu'r Grŵp.

**Ymhlith ei swyddogaethau bydd:**

- diffinio a sicrhau cydymffurfio â gwerthoedd ac amcanion strategol y sefydliad
- sefydlu fframwaith ar gyfer cymeradwyo strategaethau, polisïau a chynlluniau i gyflawni'r amcanion
- bodloni ei hun ynghylch cywirdeb gwybodaeth ariannol a chymeradwyo cyllidebau a chyfrifon blynyddol a chynlluniau busnes
- sefydlu a monitro fframwaith ar gyfer dirprwyo a systemau rheolaeth mewnol sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol
- sefydlu fframwaith ar gyfer nodi, rheoli ac adrodd ar risgiau
- gwneud penderfyniadau a chytuno ar bolisïau ar bob mater a allai greu risg ariannol neu risg arall sylweddol i'r sefydliad neu sy'n codi materion egwyddor sylweddol
- sefydlu mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu a derbyn adborth gan rhanddeiliaid a chyfranddalwyr
- monitro perfformiad y sefydliad a chymryd camau cywiro amserol os oes angen
- cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am hunanasesu a chyfrifoldebau eraill fel rhan o weithredu'r fframwaith rheoleiddio
- sicrhau bod y gymdeithas yn ystyried unrhyw ymrwymiad a roir gan y gymdeithas i'r rheoleiddiwr, neu ymyrraeth neu rwymedigaeth a osodir ar y gymdeithas gan y rheoleiddiwr
- penodi, rheoli a diswyddo'r Prif Weithredwr, neu'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol
- bodloni ei hun bod materion y sefydliad yn cael eu cynnal yn gyfreithlon a gyda gonestrwydd
- sefydlu cod ymddygiad ar gyfer y Bwrdd Rheoli
- sefydlu a gweithredu rhaglenni cynefino a datblygu a system gwerthuso perfformiad ar gyfer y Bwrdd Rheoli, a'i Is-bwyllgorau, y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac aelodau unigol y Bwrdd
- sicrhau effeithiolrwydd llywodraethu yn rheolaidd

Mabwysiadodd Grŵp Cynefin ei reolau cofrestredig newydd yn ei Gyfarfod Cyffredinol Arbennig ym mis Awst 2021, wedi'u seilio ar y rheolau enghreifftiol a lansiwyd gan Gartrefi Cymunedol Cymru ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Devonshires Solicitors. Gwnaeth Grŵp Cynefin gomisiynu Devonshires i hwyluso'r gwaith hwn, a rhoi cymorth i'r Bwrdd Rheoli i adnabod a deall y newidiadau allweddol i'r rheolau blaenorol.

Mae Byrddau Rheoli'r is-gwmnïau yn cynnwys penodiadau gan Grŵp Cynefin ac aelodau annibynnol a etholir gan gyfranddalwyr yr is-gwmni am gyfnod o dair blynedd, hyd at uchafswm o naw mlynedd.

Mae gan Fwrdd Rheoli Grŵp Cynefin bump is-bwyllgor, sef:

- **Y Pwyllgor Archwilio a Risg -** yn cynnwys aelodau o Fyrddau Rheoli Grŵp Cynefin, Canllaw, Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych ac aelodau annibynnol sydd â gwybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor.
- **Y Pwyllgor Cyllid a Thwf -** yn cynnwys aelodau o Fyrddau Rheoli Grŵp Cynefin, Canllaw, Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych ac aelodau annibynnol sydd â gwybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor.

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

- **Y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau** - yn cynnwys aelodau o Fwrdd Rheoli Grŵp Cynefin, tenantiaid ac aelodau annibynnol sydd â gwybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i gylch gwaith y pwyllgor.
- **Pwyllgor Gorwel** – yn cynnwys aelodau o Fwrdd Rheoli Grŵp Cynefin ac aelodau annibynnol sydd â gwybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i gylch gwaith y pwyllgor.
- **Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Llywodraethu** - sy'n cynnwys Cadeirydd pob un o Fyrddau Rheoli'r Grŵp a Chadeirydd pob Pwyllgor ac aelodau eraill o'r Bwrdd Rheoli yn ôl yr angen. Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r holl faterion llywodraethu a chydnabyddiaeth ariannol ar hyn o bryd.

Fel y crybwyllwyd uchod, cafodd y strwythur llywodraethu ei adolygu yn ystod 2024-25, a sefydlwyd y pwyllgorau isod o 01/04/25:

- Archwilio a Risg
- Gweithrediadau
- Tenantiaid
- Pobl

**Strwythur y Grŵp**

Mae Grŵp Cynefin yn rhiant gorff i ddau is-gwmni gweithredol, sef 'Canllaw (Eryri) Cyf' a 'Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych'. Mae hefyd yn rhiant i gwmni segur o'r enw 'Cywaith Cyf'.

Mae Canllaw yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau a Llywodraeth Cymru. Prif weithgaredd y cwmni yw rheoli asiantaeth Gofal a Thrwsio Gwynedd ac Ynys Môn sy'n trefnu addasiadau hanfodol a mân atgyweiriadau yng nghartrefi pobl hŷn, yn berchnogion tai ac yn denantiaid preifat, fel y gallant fyw yn ddiogel ac yn annibynnol.

Ffurfiwyd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn 2015 trwy uno'r asiantaethau Gofal a Thrwsio yn y ddwy sir. Mae'r endid newydd yn gwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau.

Mae Cytundeb Rhyng-grŵp manwl yn egluro hawliau a rhwymedigaethau'r rhiant gorff a'r is-gwmnïau i'w gilydd, a'r berthynas gorfforaethol rhyngddynt. Nid yw Grŵp Cynefin yn bwriadu arfer rheolaeth weithredol agos dros yr is- gwmnïau, ond yn gyffredinol, darperir cyngor ar arfer gorau a mabwysiadu polisïau. Mae Grŵp Cynefin yn monitro perfformiad ac yn archwilio gweithgareddau'r is-gwmnïau. Fel arfer, gweithredir rheolaeth ariannol trwy gymeradwyo Cynlluniau Busnes yr is-gwmnïau, a thrwy reoli trysorlys a monitro cyllideb.

Lluniwyd Cytundebau Lefel Gwasanaeth newydd yn ystod 2024-25, a chytunwyd arnynt o ran darparu gwasanaethau canolog gan Grŵp Cynefin i'r is-gwmnïau a'r ffioedd am hyn.

Rhaid i bob aelod o'r Grŵp ystyried effaith ei weithredoedd ei hun ar aelodau eraill y Grŵp, lle bo hynny'n briodol, i sicrhau gweithrediadau effeithlon a chynyddu cyfleoedd i'r eithaf.

**Is-gwmnïau**

Parhaodd Canllaw (Eryri) Cyfyngedig fel is-gwmni yn ystod y flwyddyn. Mae Canllaw yn gweithredu fel asiantaeth Gofal a Thrwsio ar draws Ynys Môn a Gwynedd.

Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych hefyd wedi parhau fel is-gwmni yn ystod y flwyddyn. Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn gweithredu fel asiantaeth Gofal a Thrwsio ledled Conwy a Sir Ddinbych.

Mae'r trydydd is-gwmni, Cywaith Cyfyngedig, wedi parhau i fod yn gwmni segur trwy gydol y flwyddyn.

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli

Rhestrir rhagor o wybodaeth am statws y cwmnïau hyn yn nodyn 29.

### Newidiadau mewn Asedau Sefydlog

Nodir manylion yr asedau sefydlog yn nodiadau 12 i 15 sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol.

### Cronfeydd wrth gefn

Gellir gweld y symudiad yng Nghronfeydd wrth gefn y Grŵp a'r Gymdeithas yn y Datganiad o Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

### DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R BWRDD

Mae Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 a deddfwriaeth tai cymdeithasol cofrestredig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Rheoli baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa'r rhiant gymdeithas a'r grŵp, ac o'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Rheoli:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, (yn amodol ar unrhyw ymadawiadau perthnasol a ddatgelwyd ac a eglurir yn y datganiadau ariannol); a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y grŵp yn parhau mewn busnes.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir, sy'n datgelu sefyllfa ariannol y grŵp gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Deddf Tai ac Adfywio 2008 a'r Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Penderfyniad Cyffredinol (Cymru) 2016 ynghylch Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae'r Bwrdd Rheoli hefyd yn gyfrifol am gynnal system ddigonol o reolaeth fewnol a diogelu asedau'r grŵp, ac felly am gymryd camau rhesymol ar gyfer amddiffyn a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra eraill.

Hyd y gŵyr y Bwrdd Rheoli:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y Gymdeithas yn ymwybodol ohoni; ac
- mae aelodau'r Bwrdd Rheoli wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'u cymryd i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, a sefydlu bod yr archwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Grŵp Cynefin ar 17 Medi 2025. Bydd Adroddiad Blynyddol 2024-25 y Gymdeithas yn cael ei gyflwyno i'w fabwysiadu yn y cyfarfod hwn.

### ARCHWILYDD

Byddwn yn penodi archwilydd y Grŵp yn unol â gofynion ein rheolau cofrestredig.

Trwy orchymyn y Bwrdd Rheoli.

HWJones.

………………………………….        Ysgrifennydd – Helen Wyn Jones

## Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol

**BARN**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Grŵp Cynefin (y 'Gymdeithas') a'i is-gwmnïau (y 'Grŵp') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, sy'n cynnwys Datganiadau Incwm Cynhwysfawr Cyfunol a'r Gymdeithas, Datganiadau o Sefyllfa Ariannol Cyfunol a'r Gymdeithas, Datganiadau Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn Cyfunol a'r Gymdeithas, Datganiadau Llif Arian y Grŵp, a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu sylweddol yn nodyn 1. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yn berthnasol â chyfraith a Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" (Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg wir a theg o gyflwr materion y Grŵp a'r Gymdeithas ar 31 Mawrth 2025 ac o incwm a wariant y Grŵp a'r Gymdeithas am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cymdeithasau Buddion Cydweithredol a Chymunedol 2014, Rheoliadau Cymdeithasau Cydweithredol a Budd-daliadau Cymunedol (Cyfrifon Grŵp) 1969, Deddf Tai ac Adfywio 2008 a'r Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Penderfyniad Cyffredinol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015.

**Sail y farn**

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio adran datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r Grŵp a'r Gymdeithas yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen i'n barn.

**Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r adroddiadau ariannol, rydym wedi dod i gasgliad bod defnydd y Bwrdd o sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i berfformio, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp neu'r Gymdeithas i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o leiaf ddeuddeg mis o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r Bwrdd mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn Adroddiad y Bwrdd Rheoli, ac eithrio'r datganiadau ariannol, ac adroddiad ein harchwilydd arno. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos fel petai wedi'i

## Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol

chamddatgan yn sylweddol. Os ydym yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath, neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall. Os ydym, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

### Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt ar sail eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion a ganlyn, lle mae'r Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 na'r Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd arnynt os, yn ein barn ni:

- nad yw'r Gymdeithas wedi cynnal system foddhaol o reolaeth dros drafodion; neu
- nad yw'r Gymdeithas wedi cadw conodion cyfrifyddu cywir; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol y Gymdeithas yn cytuno â'r llyfrau cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

### Barn ar faterion eraill a ragnodir gan gylchlythyr cymdeithasau tai RSL 02/10 'Rheolaethau ac Adrodd Mewnol'

O ran datganiad y Bwrdd ar reolaethau ariannol mewnol ar dudalen 16, yn ein barn ni:

- mae'r Bwrdd wedi darparu'r datgeliadau sy'n ofynnol gan gylchlythyr cymdeithasau tai RSL 02/10 'Rheolaethau ac Adrodd Mewnol'; ac
- nid yw datganiad y Bwrdd yn anghyson â'r wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni o'n gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol.

### Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd a nodir ar dudalen 23, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg wir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r Bwrdd yn ei benderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am asesu gallu'r Grŵp a'r Gymdeithas i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Bwrdd naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r Gymdeithas neu i roi'r gorau i weithrediadau, neu gydag unrhyw ddewis arall realistig ond gwneud hynny.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall, ac fe'u hystyrir yn berthnasol pe gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu yn gyfan gwbl, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

## Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol

### I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheolau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddarganfod datganiadau materol anghywir yn ymwneud â chyfryngau afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll. Mae'r graddfa y gall ein gweithdrefnau ei wneud i ddarganfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, wedi'i pennu isod:

- Cawsom ddealltwriaeth o gyfreithiau, rheoliadau a chanllawiau sy'n effeithio ar y grŵp a'r gymdeithas, gan ganolbwyntio ar y rhai a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, neu a gafodd effaith sylfaenol ar ei weithrediadau. Roedd deddfau, rheoliadau a chanllawiau allweddol a nodwyd gennym yn cynnwys Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014, y Datganiad o Arfer a Argymhellir ar gyfer darparwyr tai cofrestredig: SORP Tai 2018, Deddf Tai ac Adfywio 2008, Penderfyniad Cyffredinol (Cymru) 2015 ynghylch Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, deddfwriaeth treth, deddfwriaeth iechyd a diogelwch, a deddfwriaeth cyflogaeth.
- Gwnaethom holi'r Bwrdd ac adolygu gohebiaeth a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd i gael tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau perthnasol. Gwnaethom hefyd adolygu rheolaethau sydd gan y Bwrdd ar waith, lle bo angen, i sicrhau cydymffurfiad.
- Cawsom ddealltwriaeth o'r rheolaethau sydd gan y Bwrdd ar waith i atal a chanfod twyll. Gwnaethom ofyn i'r Bwrdd am unrhyw ddigwyddiadau o dwyll a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.
- Trafodwyd y risg o dwyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau o fewn y tîm archwilio a chynlluniwyd a pherfformiwyd profion i fynd i'r afael â'r risgiau hyn. Gwnaethom nodi'r potensial ar gyfer twyll yn y meysydd a ganlyn: deddfau yn ymwneud ag adeiladu a darparu tai cymdeithasol gan gydnabod natur reoledig gweithgareddau'r Grŵp.
- Gwnaethom adolygu datgeliadau datganiadau ariannol a dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiad â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod.
- Fe wnaethon ni holi'r Bwrdd am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl.
- Gwnaethom gynnal gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl a allai ddynodi risgiau o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll.
- Wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll oherwydd diystyriaeth o reolaethau mewnol gwnaethom brofi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac asesu a oedd y dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg na ellir ei hosgoi efallai na fyddwn wedi canfod rhai camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a pherfformio ein harchwiliad yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o beidio â chanfod afreoleidd-dra, gan y gallai'r rhain gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, camliwio, neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Nid ydym yn gyfrifol am atal twyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac ni ellir disgwyl i ni ganfod pob twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

### Defnyddio'r adroddiad archwilio

Lluniwyd yr adroddiad hwn i'r Gymdeithas, yn unol ag adran 87 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 ac Adran 128 o'r Ddeddf Tai ac Adnewyddu 2008. Gwnaed ein gwaith archwilio fel y gallem nodi i'r Gymdeithas, y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddo mewn adroddiad archwilydd, ac nid at unrhyw bwrpas arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw 'r Gymdeithas am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu am y farn yr ydym wedi'i ffurfio.

Beever and Struthers

Beever and Struthers, Statutory Auditor
The Colmore Building
20, Colmore Circus Queensway
Birmingham B4 6AT Dyddiad : 22 September 2025

# DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL GYFUNOL
## Ar 31 Mawrth 2025

| | Nodyn | 2025 £'000 | 2025 £'000 | 2024 £'000 | 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **TROSIANT** | 3 | | 39,872 | | 35,425 |
| Gwariant gweithredol | | (34,560) | | (30,111) | |
| Cost gwerthiannau | | - | | - | |
| Enillion o waredu eiddo, peiriannau ac offer | 3 | 463 | | 303 | |
| | | | (34,097) | | (29,808) |
| **GWARGED GWEITHREDOL** | 10 | | 5,775 | | 5,617 |
| Cyfran y golled mewn menter ar y cyd | 15 | | (42) | | (39) |
| Llog derbyniadwy | 8 | | 173 | | 404 |
| Llog a chostau ariannu | 9 | | (4,426) | | (4,635) |
| **GWARGED CYN TRETH** | | | 1,480 | | 1,347 |
| Treth | 11 | | - | | - |
| **GWARGED AM Y FLWYDDYN** | | | 1,480 | | 1,347 |
| Incwm cynhwysfawr arall<br>'Ennillion / (Colled) actiwaraidd ar gynllun pensiwn budd diffiniedig' | 26 | | 689 | | (1,217) |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN** | | | 2,169 | | 130 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan y Bwrdd Rheoli ar 10 Medi 2025
Llofnodwyd ar ei ran gan:

............................................. Tim Jones ....................................Ysgrifennydd – Helen Wyn Jones

............................................. Sally Baxter

Mae'r nodiadau ar dudalennau 34 i 66 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

# DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL GYFUNOL
## Ar 31 Mawrth 2025

| | Nodyn | 2025 £'000 | 2025 £'000 | 2024 £'000 | 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **TROSIANT** | 3a | | 36,568 | | 32,524 |
| Gwariant gweithredol | | (31,428) | | (27,286) | |
| Cost gwerthiannau | | - | | - | |
| Enillion o waredu eiddo, peiriannau ac offer | 3a | 463 | | 303 | |
| | | | (30,965) | | (26,983) |
| GWARGED GWEITHREDOL | 10 | | 5,603 | | 5,541 |
| Llog derbyniadwy | 8 | | 141 | | 380 |
| Llog a chostau ariannu | 9 | | (4,426) | | (4,621) |
| **GWARGED CYN TRETH** | | | 1,318 | | 1,300 |
| Treth | 11 | | - | | - |
| **GWARGED AM Y FLWYDDYN** | | | 1,318 | | 1,300 |
| Incwm cynhwysfawr arall 'Ennillion / (Colled) actiwaraidd ar gynllun pensiwn budd diffiniedig' | 26 | | 643 | | (1,109) |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN** | | | 1,961 | | 191 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan y Bwrdd Rheoli ar 10 Medi 2025
Llofnodwyd ar ei ran gan:

……………………………………………… Tim Jones ……………………………………Ysgrifennydd – Helen Wyn Jones

……………………………………………… Sally Baxter

Mae'r nodiadau ar dudalennau 34 i 66 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

## DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL GYFUNOL
## Ar 31 Mawrth 2025

| | Nodyn | 2025 £'000 | 2024 £'000 |
|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | |
| Asedau anniriaethol | 12 | 333 | 443 |
| Eiddo tai | 13 | 344,082 | 326,559 |
| Eiddo arall, peiriannau ac offer | 14 | 10,575 | 10,222 |
| Buddsoddiadau – Benthyciadau perchnogaeth cartref cost isel | 15 | 28,414 | 26,940 |
| Buddsoddiadau – Menter ar y cyd | 15 | 4,391 | 4,433 |
| | | 387,795 | 368,597 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | |
| Stoc | 16 | 91 | 88 |
| Dyledwyr | 17 | 5,485 | 2,934 |
| Dyledwyr: symiau derbyniadwy ar ôl mwy na blwyddyn | 17a | 8,503 | 8,798 |
| Buddsoddiadau | 18 | 1,538 | 2,926 |
| Arian Parod | | 11,154 | 7,061 |
| | | 26,771 | 21,807 |
| **CREDYDWYR: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | 19 | (18,045) | (20,959) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | 8,726 | 848 |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | 396,521 | 369,445 |
| **CREDYDWYR: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | 20 | (358,656) | (332,036) |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a ffioedd** | 20a | (357) | (448) |
| **Rhwymedigaeth pensiwn budd diffiniedig** | 26 | (2,854) | (4,476) |
| **ASEDAU NET** | | 34,654 | 32,485 |
| **CYFALAF A CHRONFEYDD WRTH GEFN** | | | |
| Cyfalaf cyfranddaliadau wedi'u dyrannu | 23 | - | - |
| Cronfa wrth gefn refeniw | | 34,632 | 32,460 |
| Cronfa wrth gefn cyfyngedig | | 22 | 25 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN** | | 34,654 | 32,485 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan y Bwrdd Rheoli ar 17 Medi 2025
Llofnodwyd ar ei ran gan:

……………………………………………… Tim Jones ……………………………………Ysgrifennydd – Helen Wyn Jones

……………………………………………… Sally Baxter

Mae'r nodiadau ar dudalennau 34 i 66 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

# DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL GYFUNOL
## Ar 31 Mawrth 2025

| | Nodyn | 2025 £'000 | 2024 £'000 |
|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | |
| Asedau anniriaethol | 12 | 333 | 443 |
| Eiddo tai | 13 | 344,082 | 326,559 |
| Eiddo arall, peiriannau ac offer | 14a | 10,542 | 10,172 |
| Buddsoddiadau – Benthyciadau perchnogaeth cartref cost isel | 15 | 28,414 | 26,940 |
| Buddsoddiadau – Menter ar y cyd | 15 | 5,502 | 5,502 |
| | | 388,873 | 369,615 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | |
| Stoc | 16 | - | - |
| Dyledwyr | 17 | 5,326 | 2,619 |
| Dyledwyr: symiau derbyniadwy ar ôl mwy na blwyddyn | 17a | 8,503 | 8,798 |
| Buddsoddiadau | 18 | 1,538 | 2,926 |
| Arian Parod | | 9,826 | 5,944 |
| | | 25,193 | 20,287 |
| **CREDYDWYR: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | 19 | (17,878) | (20,705) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | 7,315 | (418) |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | 396,188 | 369,197 |
| **CREDYDWYR: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | 20 | (358,656) | (332,035) |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a ffioedd** | 20a | (357) | (448) |
| **Rhwymedigaeth pensiwn budd diffiniedig** | 26 | (2,594) | (4,094) |
| **ASEDAU NET** | | 34,581 | 32,620 |
| **CYFALAF A CHRONFEYDD WRTH GEFN** | | | |
| Cyfalaf cyfranddaliadau wedi'u dyrannu | 23 | - | - |
| Cronfa wrth gefn refeniw | | 34,581 | 32,620 |
| Cronfa wrth gefn cyfyngedig | | - | - |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN** | | 34,581 | 32,620 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan y Bwrdd Rheoli ar 17 Medi 2025
Llofnodwyd ar ei ran gan:

............................................. Tim Jones ........................................Ysgrifennydd – Helen Wyn Jones

............................................. Sally Baxter

Mae'r nodiadau ar dudalennau 34 i 66 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

# DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL GYFUNOL
## Ar 31 Mawrth 2025

| | Cronfa Galedi (cyfyngedig) | Cronfa wrth gefn Refeniw | Cyfanswm 2025 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 25 | 32,460 | 32,485 |
| Gwarged am y flwyddyn | - | 1,480 | 1,480 |
| Trosglwyddiad yn y flwyddyn | (3) | 3 | - |
| Incwm cynhwysfawr arall | | | |
| • Enillion actiwaraidd | - | 689 | 689 |
| **Cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2025** | **22** | **34,632** | **34,654** |

| | Cronfa Galedi (cyfyngedig) | Cronfa wrth gefn Refeniw | Cyfanswm 2024 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 28 | 32,327 | 32,355 |
| Gwarged am y flwyddyn | - | 1,347 | 1,347 |
| Trosglwyddiad yn y flwyddyn | (3) | 3 | 0 |
| Incwm cynhwysfawr arall | | | |
| • Enillion actiwaraidd | - | (1,217) | (1,217) |
| **Cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2024** | **25** | **32,460** | **32,485** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 34 i 66 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

## DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL GYFUNOL
## Ar 31 Mawrth 2025

| | Cronfa wrth gefn Refeniw | Cyfanswm 2025 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 32,620 | 32,620 |
| Gwarged am y flwyddyn | 1,318 | 1,318 |
| Incwm cynhwysfawr arall | | |
| • Enillion actiwaraidd | 643 | 643 |
| Cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2025 | **34,581** | **34,581** |

| | Cronfa wrth gefn Refeniw | Cyfanswm 2025 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 32,429 | 31,429 |
| Gwarged am y flwyddyn | 1,300 | 1,300 |
| Incwm cynhwysfawr arall | | |
| • Enillion actiwaraidd | (1,109) | (1,109) |
| Cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2024 | **32,620** | **32,620** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 34 i 66 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

# DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL GYFUNOL
## Ar 31 Mawrth 2025

| | Nodyn | 2025 £'000 | 2024 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredol** | 27 | **4,653** | **4,976** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu ac adeiladu eiddo tai | | (14,428) | (17,337) |
| Gwerthu eiddo tai | | 667 | 303 |
| Grant tai cymdeithasol a dderbyniwyd | | 10,196 | 14,852 |
| Prynu asedau sefydlog eraill | | (666) | (189) |
| Adnewyddu cydrannau | | (6,480) | (661) |
| Gwerthu asedau sefydlog eraill | | 213 | 836 |
| Gwarediadau grant asedau sefydlog eraill | | (819) | 59 |
| Buddsoddi mewn benthyciadau perchnogaeth cartref cost isel | | (1,474) | (1,033) |
| Llog a dderbyniwyd | | 173 | 404 |
| **Arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(12,618)** | **(2,766)** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Benthyciadau a dderbyniwyd | | 15,300 | (67) |
| Ad-dalu benthyciadau | | (631) | (4,349) |
| Llog a dalwyd | | (3,999) | (4,470) |
| **Arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **10,670** | **(8,886)** |
| | | | |
| **(Lleihad) / Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | | 2,705 | (6,676) |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | | 9,987 | 16,663 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | | **12,692** | **9,987** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 34 i 66 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

# NODIADAU I GYD-FYND GYDA’R DATGANIADAU ARIANNOL
## Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

### 1. POLISÏAU CYFRIFYDDU

**Statws Cyfreithiol**

Mae Grŵp Cynefin wedi'i ymgorffori yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 ac mae wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru fel Cymdeithas Dai Preifat (rhif L029). Y swyddfa gofrestredig yw Tŷ Silyn, Y Sgwâr, Penygroes, LL54 6LY. Prif weithgaredd Grŵp Cynefin yw darparu tai cymdeithasol. Crynhoir y prif bolisïau cyfrifyddu isod. Maent i gyd wedi'u gosod yn gyson trwy gydol y flwyddyn ac i'r flwyddyn flaenorol.

**Gwybodaeth gyffredinol a sail gyfrifyddu**

Paratowyd y datganiadau ariannol dan y confensiwn cost hanesyddol yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol, ac maent yn cydymffurfio gyda’r Datganiad Arfer a Argymhellir ar gyfer darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig 2018 (SORP), a Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Penderfyniad Cyffredinol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2015, Deddf Cymdeithasau Budd-daliadau Cydweithredol a Chymunedol 2014, Rheoliadau Cymdeithasau Cydweithredol a Budd-daliadau Cymunedol (Cyfrifon Grŵp) 1969 a Deddf Tai ac Adfywio 2008.

**Sail cyfuno**

Mae datganiadau ariannol y Grŵp yn cyfuno datganiadau ariannol y rhiant gymdeithas a thrafodion ei is-gwmnïau hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn.

**Caffael**

Mae cyfuniadau busnes sy’n cael eu hystyried yn gaffael yn cael eu cyfrifyddu dan y dull prynu. Lle bo’n angenrheidiol, gwneir addasiadau i ddatganiadau ariannol is-gwmnïau i ddod â’r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd yn unol â’r rhai a ddefnyddiwyd gan y Grŵp. Mae’r holl drafodion, balansau, incwm a threuliau rhyng-grŵp yn cael eu diddymu wrth gyfuno.

**Cyfuniadau endid budd cyhoeddus**

Mae cyfuniadau a gyflawnir ar ystyriaeth nil yn cael eu cyfrifyddu fel bod unrhyw swm uwchben gwerth teg yr ased a dderbyniwyd yn uwch na gwerth teg y rhwymedigaethau tybiedig yn cael ei adnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

**Menter ar y cyd**

Mae endidau y mae gan y grŵp fuddiant ynddynt ac sy’n cael eu rheoli ar y cyd gan y grŵp ac un neu ragor o fentrau eraill dan drefniant cytundebol yn cael eu trin fel mentrau ar y cyd. Defnyddir y dull ecwiti yn natganiadau ariannol y grŵp i gyfrifo am fentrau ar y cyd. Yn natganiadau ariannol y rhiant gymdeithas mae buddsoddiadau mewn mentrau cyd yn cael eu cyfrifyddu fel cost llai amhariad a difidendau a dderbyniwyd. Mae’r Grŵp yn asesu a oes unrhyw arwydd o amhariad ar bob dyddiad adrodd.

Mae grantiau’r Llywodraeth a dderbynnir o ran buddsoddiadau ym Mhartneriaeth Tai Cymru a’r eiddo les yn cael eu cyfrifyddu ar y sail eu bod wedi cael eu darparu gan y llywodraeth i ran-gyllido’r buddsoddiad ym menter ar y cyd y Bartneriaeth. Ystyrir y bydd y Grŵp yn gwireddu budd y grant os a phan fydd y buddsoddiad yn cael ei ad-dalu yn unig. Ar adeg derbyn y grant, mae’n grant gan y llywodraeth a dderbynnir ymlaen llaw ac felly’n cael ei gydnabod fel incwm gohiriedig yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol hyd at y pwynt y mae’r buddsoddiad cysylltiedig yn cael ei ad-dalu.

**Eiddo, peiriannau ac offer – eiddo tai**

Nodir eiddo tai ar sail cost neu brisiad llai dibrisiant cronedig a cholledion amhariad cronedig. Mae cost yn cynnwys cost caffael tir ac adeiladu, costau datblygu uniongyrchol a chostau benthyca uniongyrchol i adeiladu eiddo tai newydd yn ystod y datblygu. Mae cyfalafu’n diweddu pan fo’r holl weithgareddau sy’n angenrheidiol i gael yr ased yn barod i’w ddefnyddio wedi’u cwblhau i raddau helaeth.

## NODIADAU I GYD-FYND GYDA'R DATGANIADAU ARIANNOL
## Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

**Defnyddir dibrisiant er mwyn cofnodi gwerth llyfr net eiddo tai ar amcangyfrif eu gwerth gweddilliol, ar sail llinell syth, dros eu hoes economaidd ddefnyddiol.**

Mae prif gydrannau eiddo tai, sy'n meddu ar batrymau defnyddio a budd economaidd sylweddol wahanol yn cael eu trin fel asedau ar wahân a'u dibrisio dros eu cyfnod oes economaidd ddefnyddiol disgwyliedig ar y cyfraddau blynyddol a ganlyn:

| | Blynyddoedd |
|---|---|
| Prif Strwythur | 150 |
| Cydrannau eraill: | |
| Ceginau | 15 |
| Ystafelloedd ymolchi | 25 |
| To | 70 |
| Ffenestri | 25 |
| Drysau allanol | 25 |
| Gwresogi – boeleri | 13 |
| Gwresogi – systemau gwlyb | 25 |
| Trydanol | 30 |

Mae cydrannau ar dir lesddaliad yn cael eu dibrisio dros y byrraf o'r uchod a chyfnod y les sy'n weddill. Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio.

Lle bo gwelliannau i eiddo tai y disgwylir iddynt ddarparu buddion cynyddrannol yn y dyfodol, mae'r rhain yn cael eu hychwanegu at werth cario'r eiddo. Mae unrhyw waith i eiddo tai nad yw'n adnewyddu cydran neu'n arwain at fuddiant cynyddraddol yn y dyfodol yn cael ei godi fel gwariant yn y gwarged neu'r diffyg yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

**Eiddo, peiriannau ac offer nad yw'n gysylltiedig â thai**

Nodir eiddo, peiriannau ac offer heblaw tai ar gost hanesyddol llai dibrisiant cronedig ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Darperir dibrisiant ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer heblaw tai, ac eithrio eiddo buddsoddiadol a thir rhydd-ddaliadol, ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost neu brisiad, llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig, pob ased ar sail llinell syth dros ei ddisgwyl bywyd defnyddiol, fel a ganlyn:

| | Blynyddoedd |
|---|---|
| Offer a dodrefn swyddfa | 5 |
| Caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol | 4 |
| Cerbydau modur | 3 |

Mae offer amrywiol eraill y codir amdanynt trwy dâl gwasanaeth yn cael eu dibrisio ar wahanol gyfraddau, yn dibynnu ar eu math.

**Asedau anniriaethol**

Nodir asedau anniriaethol ar sail cost hanesyddol, llai amorteiddio cronnus ac unrhyw ddarpariaeth ar gyfer amhariad. Darperir amorteiddio ar yr holl asedau anniriaethol ar raddau wedi'u cyfrifo i ddiddymu cost pob ased ar sail llinell syth dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Meddalwedd tai | 10 mlynedd |

**Amhariad Eiddo Tai Cymdeithasol**

Nid yw eiddo a gadwir ar gyfer eu budd cymdeithasol yn cael eu dal yn unig ar gyfer y Llif arian i mewn y maent yn eu cynhyrchu ac fe'u cedwir ar gyfer eu potensial gwasanaeth.

# NODIADAU I GYD-FYND GYDA'R DATGANIADAU ARIANNOL
## Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Gwneir asesiad adeg pob dyddiad adrodd o ran p'un ai oes dangosydd nam yn bodoli. Os yw dangosydd o'r fath yn bodoli, cynhelir asesiad amhariad a gwneir amcangyfrif ynghylch swm adferadwy'r ased. Lle bo swm cario'r ased yn uwch na'r swm y gellir ei adfer, cydnabyddir colled synhwyrau yn y gwarged neu'r diffyg yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Swm adferadwy ased yw'r uchaf o'i werth mewn defnydd a gwerth teg llai'r costau i werthu. Lle cedwir asedau ar gyfer eu potensial gwasanaeth, penderfynir ar y gwerth mewn defnydd gan brisiad presennol potensial gwasanaethu'r ased sy'n weddill ynghyd â'r swm net y disgwylir ei dderbyn o'i waredu. Derbynnir cost adnewyddu wedi'i ddibrisio fel model mesur addas.

Mae colled amhariad yn cael ei wyrdroi os yw'r rhesymau am y golled amhariad wedi terfynu bod yn berthnasol a'i gynnwys yn y gwarged neu'r diffyg yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

**Grant Tai Cymdeithasol a grantiau eraill y Llywodraeth**

Cydnabyddir grantiau'r llywodraeth gan ddefnyddio'r model cronnus ac fe'u nodir fel un ai grant yn ymwneud â refeniw neu grant yn ymwneud ag asedau. Mae grantiau'n ymwneud â refeniw yn cael eu cydnabod fel incwm ar sail systematig dros y cyfnod y mae'r costau cysylltiedig y bwriadwyd y grant i'w digolledu yn berthnasol. Lle bo grant yn cael ei dderbyn fel iawndal am dreuliau neu golledion a ddigwyddodd eisoes, neu at ddiben rhoi cymorth ariannol ar unwaith heb unrhyw gostau cysylltiedig yn y dyfodol, fe'i cydnabyddir fel refeniw yn y cyfnod y mae'n dderbyniadwy.

Cydnabyddir grantiau sy'n ymwneud ag asedau fel incwm ar sail systematig dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased. Cydnabyddir grantiau a dderbynnir ar gyfer eiddo tai fel incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig strwythur yr eiddo tai. Pan dderbynnir grant yn benodol ar gyfer cydrannau eiddo tai, cydnabyddir y grant fel incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig y gydran.

Mae grantiau ar gyfer gwariant refeniw yn cael eu cydnabod mewn incwm cynhwysfawr dros yr un cyfnod â'r gwariant y maent yn berthnasol iddo unwaith y bydd amodau cysylltiedig â pherfformiad wedi'u bodloni.

**Rhoi neu gaffael tir neu ased arall am lai na gwerth y farchnad**

Lle bo achos o roi tir a/neu asedau eraill neu gaffael tir a/neu asedau eraill am lai na gwerth y farchnad gan drydydd parti nad yw'n bodloni diffiniad ffynhonnell llywodraeth, cydnabyddir y trafodyn fel ased yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol ar brisiad teg, gan ystyried unrhyw gyfyngiadau ar ddefnyddio'r ased gydag incwm yn cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng unrhyw symiau a dalwyd neu'n daladwy am yr ased a phrisiad teg yr ased yn cael ei gydnabod yn y gwarged neu'r diffyg yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr fel rhodd pan fo amodau'n gysylltiedig â pherfformiad yn y dyfodol yn cael eu bodloni.

**Grant Cyllid Tai**

Telir Grant Cyllid Tai gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau asedau tai dros gyfnod o 30 mlynedd fel cymhorthdal tuag at gostau cyfalaf a llog darpariaeth tai fforddiadwy. Mae gwerth net presennol y Grant Cyllid Tai sy'n dderbyniadwy dros y cyfnod talu cytunedig yn cael ei gydnabod fel grant cyfalaf a dyledwr gohiriedig.

Pan dderbynnir y taliadau grant mae'r dyledwr yn lleihau'r elfen gyfalaf ac mae'r gwahaniaeth rhwng hyn a swm y grant a dderbyniwyd yn cael ei gredydu i'r gwarged neu'r diffyg yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr fel cyfraniad tuag at gost cyllido'r cynllun hwnnw. Y gyfradd ddisgownt a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo'r gwerth net presennol yw'r un gyfradd sy'n berthnasol i'r benthyca cysylltiedig i ariannu'r asedau tai.

Tybir bod elfen grant cyfalaf y Grant Cyllid Tai a dderbyniwyd yn flaenorol yn daladwy pan fo ased tai cysylltiedig yn cael ei waredu. Mae hyn yn cael ei drin fel Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu yn y Gronfa Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu ac yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol fel credydwr

**Ailgylchu grantiau**

Lle nad oes gofyniad i un ai ad-dalu neu ailgylchu grant a dderbyniwyd ar gyfer ased a waredwyd, cynhwysir darpariaeth yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol i gydnabod yr ymrwymiad hwn fel rhwymedigaeth. Pan dderbynnir cymeradwyaeth gan y corff cyllido i ddefnyddio'r grant ar gyfer datblygiad penodol, mae'r swm a

gydnabuwyd yn flaenorol fel darpariaeth ar gyfer ailgylchu'r grant yn cael ei ailddosbarthu fel credydwr yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

Ar adeg gwaredu ased y derbyniwyd grant gan y llywodraeth ar ei gyfer, os nad oes ymrwymiad i ad-dalu'r grant, mae unrhyw grant sy'n weddill heb ei amorteiddio o fewn rhwymedigaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol sy'n ymwneud â'r ased yn newid o fod yn rhwymedigaeth i'w gydnabod fel gwarged neu ddiffyg refeniw yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

**Cymorth Prynu**

Mae benthyciadau Cymorth Prynu yn bodloni'r diffiniad o fenthyciad consesiynol endid budd cyhoeddus ac fe'u cydnabyddir yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol fel y swm a dalwyd. Mae grantiau Cymorth Prynu a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r cyfan neu ran o fenthyciad Cymorth Prynu a ddarperir gan y Grŵp i brynwr yr eiddo yn grantiau'r llywodraeth a dderbynnir ymlaen llaw a'u cydnabod fel incwm gohiriedig yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol hyd at y pwynt y mae'r benthyciad Cymorth Prynu cysylltiedig yn cael ei ad-dalu. Pan fo'r benthyciad Cymorth Prynu cael ei ad-dalu, mae'r grant Cymorth Prynu perthnasol yn cael ei gydnabod yn y gronfa grant cyfalaf wedi'i ailgylchu.

**Gwerthu eiddo rhanberchnogaeth**

Mae eiddo rhanberchnogaeth yn cael eu rhannu rhwng asedau anghyfredol ac asedau cyfredol. Penderfynir ar y rhaniad ar sail canran yr eiddo i'w werthu dan ran gyntaf y gwarediad, a ddangosir ar y gydnabyddiaeth gyntaf fel ased cyfredol, gyda'r gweddill yn cael ei nodi fel ased anghyfredol dan eiddo, peiriannau ac offer.

**Rhentu i brynu a Rhentu i brynu rhanberchnogaeth**

Mae eiddo rhentu i brynu, yn cynnwys y rhai sydd wrthi'n cael eu hadeiladu, yn cael eu cyfrif fel asedau anghyfredol i ddechrau. Caiff dau ddeg a phump y cant o'r rhent yn cael ei drin fel asedau cyfredol a'r gweddill yn cael ei drin fel rhent. Os gweithredir y dewis i brynu'r eiddo, yna mae'r gwerth wedi cronni yn yr asedau cyfredol yn cael ei drosglwyddo i'r tenant i'w ddefnyddio fel blaendal, a gwerthir yr eiddo i'r tenant ar werth cyfredol y farchnad. Os yw'r tenant yn penderfynu ar ddiwedd y pum mlynedd i beidio â dewis hyn, yna mae'r swm wedi cronni yn yr asedau cyfredol yn cael ei gydnabod fel incwm rhent yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr.

Cofnodir rhentu i brynu rhanberchnogaeth trwy gyfuno egwyddorion Rhanberchnogaeth, lle mae'r gyfran sy'n cael ei rentu i'r tenant yn cael ei drin fel Rhentu i Brynu.

**Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig**

Lle bo cronfeydd wrth gefn yn ddarostyngedig i gyfyngiad allanol, fe'u cydnabyddir ar wahân yn y cronfeydd wrth gefn fel cronfa wrth gefn gyfyngedig. Mae'r refeniw a'r gwariant yn cael ei gynnwys yn y gwarged neu ddiffyg yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr a gwneir trosglwyddiad o'r gronfa wrth gefn gyffredinol i'r gronfa wrth gefn cyfyngedig.

**Lesau gweithredol**

Mae lesau nad ydynt yn trosglwyddo holl risgiau a gwobrau perchnogaeth yn cael eu nodi fel lesau gweithredol. Mae taliadau dan lesau gweithredol yn cael eu cofnodi yn y gwarged neu'r diffyg yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

**Llog taladwy**

Costau benthyca yw llog a chostau eraill yn gysylltiedig â benthyca cronfeydd. Cyfrifir costau benthyca gan ddefnyddio'r gyfradd llog effeithiol, sef y gyfradd sy'n union ostwng taliadau neu dderbynebau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol trwy oes ddisgwyliedig offeryn ariannol ac fe'i penderfynir ar sail swm cario'r rhwymedigaeth ariannol ar y gydnabyddiaeth gychwynnol.

# NODIADAU I GYD-FYND GYDA'R DATGANIADAU ARIANNOL
## Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

### Treth

Mae Grŵp Cynefin yn cael ei drin fel sefydliad elusennol at ddibenion treth. Cadarnhawyd hyn gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar 11 Mawrth 2005, cyfeirnod XR85179. O ganlyniad, mae'r gwargedion yn deillio o'r gweithgareddau sylfaenol wedi eu heithrio rhag Treth. Adolygir y driniaeth hon yn flynyddol yn unol â'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan y sefydliad i sicrhau bod yr eithriad yn parhau'n berthnasol.

### Pensiynau

Mae Grŵp Cynefin a Canllaw (Eryri) Cyf yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol (Social Housing Pension Scheme - SHPS), sy'n gynllun pensiwn aml-gyflogwr. Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn rhan o gynllun Cyfraniadau Diffiniedig gyda NEST.

Cynllun pensiwn buddion diffiniedig aml-gyflogwr – 'Social Housing Pension Scheme'
Mae'r Grŵp yn cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol ('SHPS'), cynllun pensiwn aml-gyflogwr budd diffiniedig a weinyddir gan TPT Retirement Solutions ('TPT').

Penderfynir ar gost cynllun pensiwn budd diffiniedig gan ddefnyddio prisiad actiwaraidd gyda rhwymedigaethau'r cynllun yn cael eu mesur gan ddefnyddio'r dull rhagfynegiad credyd uned a rhoi disgownt ar gyfraddau bondiau corfforaethol ansawdd uchel priodol. Mesurir asedau'r cynllun ar werth teg. Cydnabyddir y gwarged neu'r diffyg net yn y datganiad y sefyllfa ariannol. Cyfrifir y gost cyllido ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig net. Adroddir ar ailfesur dan incwm cynhwysfawr arall.

Cynllun cyfraniadau diffiniedig
Mae'r Grŵp yn rhan o gynllun cyfraniadau diffiniedig lle mai'r swm a nodir yn y gwarged neu'r diffyg yn y Datganiad Incwm Cynhwysafawr o ran costau pensiwn a buddion eraill ar ôl ymddeol yw'r cyfraniadau taladwy yn y flwyddyn. Dangosir gwahaniaethau rhwng y cyfraniadau sy'n daladwy yn y flwyddyn a'r cyfraniadau a dalwyd fel un ai croniadau neu flaendaliadau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

### Trosiant

Mae trosiant yn cynrychioli rhent a thâl gwasanaeth sy'n dderbyniadwy (net o golledion rhent a thâl gwasanaeth oherwydd eiddo gwag) ac elw gwaredu asedau cyfredol fel eiddo rhanberchnogaeth ynghyd â grantiau refeniw gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

Mae'r elw o ran gyntaf y gwaredu yn cael ei gofnodi fel trosiant yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnod y mae'r gwaredu'n digwydd ac mae'r gost gwerthu yn cael ei drosglwyddo o asedau cyfredol i gostau gweithredol. Mae elw o werthiannau rhannau dilynol yn cael eu trin fel gwaredu asedau sefydlog.

### Buddsoddiadau

Mae buddsoddiadau sy'n cael eu masnachu'n gyhoeddus neu y gellir mesur eu gwerth yn ddibynadwy yn cael eu mesur ar werth teg gyda newidiadau yn y gwerth teg yn cael ei gydnabod yn y gwarged neu'r diffyg yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Mesurir buddsoddiadau eraill ar gost wedi'i amorteiddio llai amhariad.

### Offerynnau ariannol

Asedau ariannol sy'n cael eu cario ar gost wedi'i amorteiddio
Mae asedau ariannol sy'n cael eu cario ar gost wedi'i amorteiddio yn cynnwys dyledion rhent, masnach ac eitemau derbyniadwy eraill, arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod. Cydnabyddir asedau ariannol ar werth teg ynghyd â chostau trafodion y gellir eu tadogi'n uniongyrchol i ddechrau. Ar ôl y gydnabyddiaeth ddechreuol maent yn cael eu mesur ar gost wedi'i amorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Ar adeg adrodd hyn nid yw effaith y disgownt yn berthnasol i werth asedau ariannol Grŵp Cynefin, felly hepgorwyd y disgowntio.

Mae ased ariannol yn peidio â chael ei gydnabod pan fo'r hawliau cytundebol i'r Llif arian yn darfod, neu pan fo'r ased ariannol a'r holl risgiau a gwobrau sylweddol yn cael eu trosglwyddo.

Rhwymedigaethau ariannol sy'n cael eu cario ar gost wedi'i amorteiddio
Mae'r rhwymedigaethau ariannol yn cynnwys masnach ac eitemau taladwy eraill, a benthyciadau gyda llog.

Mesurir benthyciadau, sy'n cael eu dosbarthu fel offerynnau ariannol sylfaenol dan FRS102, ar gost wedi'i amorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog gweithredol, gyda llog a thaliadau cysylltiedig yn cael eu cydnabod fel traul yn y costau cyllido yn y Datganiad Incwm Cynhwysfawr. Hepgorir disgowntio lle nad yw effaith y disgowntio'n gwneud gwahaniaeth perthnasol.

Mae rhwymedigaeth ariannol yn peidio â chael ei gydnabod yn unig pan fo'r ymrwymiadau cytundebol wedi darfod, hynny yw, pan fo'r ymrwymiad wedi'i gyflawni, ei ganslo neu'n darfod.

## 2. BARN ARWYDDOCAOL RHEOLWYR A FFYNONELLAU ALLWEDDOL ANSICRWYDD AMCANGYFRIFO

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheolwyr farnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio cymhwyso polisïau a swm yr asedau a rhwymedigaethau, incwm a threuliau yr adroddir amdanynt. Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau cysylltiedig wedi'u seilio ar brofiad hanesyddol ac amryw o ffactorau eraill y credir eu bod yn rhesymol dan yr amgylchiadau, gyda'u canlyniadau yn ffurfio sail gwneud y dyfarniadau ynghylch cario gwerthoedd asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill. Gallai'r gwir ganlyniadau fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Adolygir yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sail yn barhaus. Mae diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y diwygir yr amcangyfrifon ac mewn unrhyw gyfnod a effeithir yn y dyfodol.

**Barn arwyddocaol rheolwyr**

Mae'r isod yn farnau rheolwyr wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r Grŵp sy'n cael yr effaith mwyaf arwyddocaol ar y symiau a nodir yn y datganiadau ariannol.

Amhariad eiddo tai cymdeithasol
Rhaid i'r Grŵp asesu os oes dangosydd amhariad yn bodoli. Wrth wneud y dyfarniad, ystyriodd y rheolwyr y meini prawf manwl a nodwyd yn y SORP. Gwnaed asesiad i ystyried gwerth teg yr eiddo tai cymdeithasol a'r effaith bosibl y bydd hyn yn ei chael ar y prisiadau hyn, eu llif arian yn y dyfodol a'r potensial gwasanaeth.

Cyfalafu eiddo tai a chostau datblygu eraill

Mae'r Grŵp yn cyfalafu gwariant datblygu yn unol â'r polisi cyfrifyddu eiddo tai ac asedau sefydlog eraill. Mae'r cyfalafu'n golygu bod rhaid gwneud ystod o ddyfarniadau, megis pennu'r cyfnod ar gyfer cyfalafu llog, cyfrifo faint o amser a gorbenion staff y dylid eu cyfalafu a sefydlu pa gostau datblygu cysylltiedig y dylid eu cyfalafu a pha gostau y dylid eu dileu. Bernir hefyd ynghylch y tebygolrwydd y bydd prosiectau'n parhau.

**Ansicrwydd amcangyfrifon**

Mae'r Grŵp yn gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch y dyfodol. Trwy ddiffiniad yn aml ni fydd yr amcangyfrifon cyfrifyddu'n hafal i'r gwir ganlyniadau cysylltiedig. Ymdrinnir â'r amcangyfrifon a'r tybiaethau sy'n meddu ar risg arwyddocaol o achosi addasiad perthnasol i'r symiau cario asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf isod.

Cynllun pensiwn buddion diffiniedig

Mae gan y Grŵp ymrwymiadau i dalu buddion pensiwn i gyflogeion penodol. Mae cost y buddion hyn a gwerth presennol yr ymrwymiad yn dibynnu ar nifer o ffactorau, yn cynnwys disgwyliad oes, cynnydd cyflog a'r gyfradd ddisgownt o ran bondiau corfforaethol. Mae'r rheolwyr yn amcangyfrif y ffactorau hyn wrth benderfynu ar yr ymrwymiad pensiwn net yn y fantolen. Mae'r tybiaethau'n adlewyrchu profiadau hanesyddol

## NODIADAU I GYD-FYND GYDA'R DATGANIADAU ARIANNOL
## Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

a thueddiadau cyfredol. Gallai amrywiaethau yn y tybiaethau hyn gael effaith arwyddocaol ar y rhwymedigaethau (gweler nodyn 26)

Cydrannau eiddo tai ac oes ddefnyddiol
Mae gan brif gydrannau eiddo tai batrymau defnyddio a buddion economaidd arwyddocaol gwahanol, a gwneir amcangyfrifon i ddyrannu cost ddechreuol yr eiddo i'w brif gydrannau a dibrisio pob cydran ar wahân dros ei oes economaidd ddefnyddiol. Mae'r Grŵp yn ystyried ar bob dyddiad adrodd a oes unrhyw ddangosyddion lle bo angen adolygu'r oesoedd defnyddiol i sicrhau eu bod yn parhau'n briodol.

# NODIADAU I GYD-FYND GYDA'R DATGANIADAU ARIANNOL
## Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

### 3. TROSIANT A CHOSTAU GWEITHREDOL CYFUNOL

| | 2025 Trosiant £'000 | 2025 Costau Gweithredol £'000 | 2025 Gwarged (diffyg) gweithredol £'000 | 2024 Trosiant £'000 | 2024 Costau Gweithredol £'000 | 2024 Gwarged (diffyg) gweithredol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm a gwariant ar osodiadau (Nodyn 4)** | 32,343 | (26,169) | 6,174 | 28,247 | (22,117) | 6,130 |
| **Incwm a gwariant arall** | | | | | | |
| Tîm cartrefi fforddiadwy | 205 | (847) | (642) | 207 | (772) | (565) |
| Cynllun Digartrefedd Conwy | 42 | (42) | - | 41 | (41) | - |
| Gwasanaethau datblygu | - | (811) | (811) | - | (781) | (781) |
| Gorwel | 2,589 | (2,670) | (81) | 2,657 | (2,666) | (9) |
| HWB | 181 | (176) | 5 | 157 | (140) | 17 |
| Hwyluswyr Tai Gwledig | 153 | (129) | 24 | 183 | (180) | 3 |
| Incwm a gwariant arall | 848 | (367) | 481 | 775 | (339) | 436 |
| Canolfan Fenter | 134 | (117) | 17 | 128 | (117) | 11 |
| Wardeiniaid Ynni | 45 | (51) | (6) | 59 | (55) | 4 |
| Y Shed, Gallt Melyd | 28 | (49) | (21) | 70 | (78) | (8) |
| Canllaw (Eryri) Cyf | 1,596 | (1,490) | 106 | 1,371 | (1,351) | 20 |
| Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych | 1,708 | (1,642) | 66 | 1,530 | (1,474) | 56 |
| Cyfanswm | 39,872 | (34,560) | 5,312 | 35,425 | (30,111) | 5,314 |
| Enillion ar ôl gwaredu eiddo, peiriannau ac offer | | | 463 | | | 303 |
| Gwarged gweithredol | | | 5,775 | | | 5,617 |

# NODIADAU I GYD-FYND GYDA'R DATGANIADAU ARIANNOL
## Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

3a TROSIANT A CHOSTAU GWEITHREDOL Y GYMDEITHAS

| | 2025 Trosiant £'000 | 2025 Costau Gweithredol £'000 | 2025 Gwarged (diffyg) Gweithredol £'000 | 2024 Trosiant £'000 | 2024 Costau Gweithredol £'000 | 2024 Gwarged (diffyg) gweithredol £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm a gwariant ar osodiadau (Nodyn 4)** | 32,343 | (26,169) | 6,174 | 28,247 | (22,117) | 6,130 |
| **Incwm a gwariant arall** | | | | | | |
| Tîm cartrefi fforddiadwy | 205 | (847) | (642) | 207 | (772) | (565) |
| Cynllun Digartrefedd Conwy | 42 | (42) | - | 41 | (41) | - |
| Gwasanaethau datblygu | - | (811) | (811) | - | (781) | (781) |
| Gorwel | 2,589 | (2,670) | (81) | 2,657 | (2,666) | (9) |
| HWB | 181 | (176) | 5 | 157 | (140) | 17 |
| Hwyluswyr Tai Gwledig | 153 | (129) | 24 | 183 | (180) | 3 |
| Incwm a gwariant arall | 848 | (367) | 481 | 775 | (339) | 436 |
| Canolfan Fenter | 134 | (117) | 17 | 128 | (117) | 11 |
| Wardeiniaid Ynni | 45 | (51) | (6) | 59 | (55) | 4 |
| Y Shed, Gallt Melyd | 28 | (49) | (21) | 70 | (78) | (8) |
| Cyfanswm | 32,522 | (31,428) | 5,140 | 32,524 | (27,286) | 5,238 |
| Enillion ar ôl gwaredu eiddo, peiriannau ac offer | | | 463 | | | 303 |
| Gwarged gweithredol | | | 5,603 | | | 5,541 |

# NODIADAU I GYD-FYND GYDA'R DATGANIADAU ARIANNOL
## Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

### 4. TROSIANT O OSODIADAU

| | Anghenion Cyffredinol £'000 | Tai a Chefnogaeth £'000 | 2025 Cyfanswm £'000 | 2024 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Rhent | 22,737 | 1,848 | **24,585** | **22,892** |
| Tâl Gwasanaeth | 2,740 | 92 | **2,832** | **2,160** |
| | 25,477 | 1,940 | **27,417** | **25,052** |
| Grantiau Llywodraeth Arall | 2,125 | - | **2,125** | **451** |
| Amorteiddio'r grant | 2,801 | - | **2,801** | **2,744** |
| Cyfanswm Incwm | 30,403 | 1,940 | **32,343** | **28,247** |
| **Costau gweithredol gosodiadau** | | | | |
| Gwasanaethau | 2,754 | 93 | **2,847** | **2,406** |
| Rheolaeth | 4,214 | 946 | **5,160** | **5,042** |
| Cynnal a chadw o ddydd i ddydd | 6,335 | 409 | **6,744** | **5,793** |
| Cynnal a chadw cynlluniedig | 6,104 | 389 | **6,493** | **4,082** |
| Datblygu cymunedol | 406 | 26 | **432** | **580** |
| Dibrisiant eiddo tai | 3,985 | 255 | **4,240** | **4,079** |
| Amhariad | - | - | - | - |
| | 23,798 | 2,118 | **25,916** | **21,982** |
| **Colledion oherwydd drwg ddyledion** | 253 | - | **253** | **135** |
| **Cyfanswm gwariant** | 24,051 | 2,118 | **26,169** | **22,117** |
| **Gwarged gweithredol** | 6,352 | (178) | **6,174** | **6,130** |
| Colledion eiddo gwag | 454 | 23 | **477** | **420** |

# NODIADAU I GYD-FYND GYDA’R DATGANIADAU ARIANNOL
## Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

### 5. UNEDAU DAN REOLAETH

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan y grŵp y nifer ganlynol o eiddo dan ei reolaeth:

| | 2025 Nifer | 2024 Nifer |
|---|---|---|
| Unedau rhent anghenion cyffredinol (yn cynnwys unedau rhent cymdeithasol, rhent canolraddol a ‘rhoi cynnig arni cyn prynu’) | 3,526 | 3,506 |
| Unedau rhent tai â chefnogaeth | 340 | 344 |
| Unedau gofal ychwanegol | 239 | 206 |
| Unedau rhanberchnogaeth: wedi’u rhentu | 23 | 23 |
| Unedau Partneriaeth Tai Cymru | 142 | 142 |
| Rhentu i berchnogi | 16 | 17 |
| Rheolir ar ran Elusen Elizabeth Owen | 7 | 7 |
| Rheolir ar ran Elusen Tai Ellen Glynne | 10 | 10 |
| | 4,303 | 4,255 |

### 6. ENILLION Y CYFARWYDDWYR

Roedd yr enillion a dalwyd i’r swyddog ar y cyflog uchaf, sef y Prif Weithredwr, yn £135K ac eithrio cyfraniadau pensiwn (2024- £105K). Mae’r pensiwn i’r Prif Weithredwr (sy’n aelod cyffredin o’r cynllun pensiwn) ar yr un sail ag ar gyfer yr holl gyflogeion eraill ac yn dod i gyfanswm o £10k (2024 - £9K), tra bod buddion eraill sef darpariaeth teithio yn dod i £6K (2024 - £2K).

Roedd nifer y rhai, yn cynnwys yr un ar y cyflog uchaf, a dderbyniodd enillion (ac eithrio yswiriant gwladol, cyfraniadau pensiwn a chostau diswyddo) yn yr amrediad isod fel a ganlyn:

| | 2025 £’000 | 2024 £’000 |
|---|---|---|
| £30,001 - £40,000 | - | 1 |
| £40,001 - £50,000 | 1 | - |
| £50,001 - £60,000 | 1 | 1 |
| £60,001 - £70,000 | - | - |
| £70,001 - £80,000 | - | - |
| £80,001 - £90,000 | 1 | 1 |
| £90,001 - £100,000 | 1 | - |
| £100,001 - £110,000 | - | 1 |
| £110,001 - £120,000 | - | - |
| £120,001 - £130,000 | - | - |
| £130,001 - £140,000 | 1 | - |

| Enillion a phensiwn y Tîm Arweinyddiaeth | 2025 £’000 | 2024 £’000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 406 | 276 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 47 | 35 |
| Pensiwn | 30 | 23 |
| | 483 | 334 |

# NODIADAU I GYD-FYND GYDA'R DATGANIADAU ARIANNOL
## Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Talwyd ffioedd o £65.138 i aelodau'r Bwrdd Rheoli yn ystod y flwyddyn (2024 – £60,223). Yn unol â Chod Ymddygiad Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru, mae'r Bwrdd wedi sefydlu polisi a gweithdrefn ynghylch talu treuliau i aelodau'r Bwrdd. Mae'r Gymdeithas yn barod i ad-dalu costau'r aelodau yn dilyn cyflawni busnes y Gymdeithas.

| | **2025 £'000** | **2024 £'000** |
|---|---|---|
| Cyfanswm y treuliau a hawliwyd gan aelodau'r Bwrdd Rheoli | 1 | 2 |

**7. GWYBODAETH AM GYFLOGEION**

Nifer cyfartalog y cyflogeion, sydd yn cyfateb i amser llawn (yn cynnwys uwch swyddogion) yn gyflogedig yn ystod y flwyddyn:

| | **Grŵp 2025 No.** | **Grŵp 2024 No.** | **Y Gymdeithas 2025 No.** | **Y Gymdeithas 2024 No.** |
|---|---|---|---|---|
| Staff gweinyddol | 250 | 247 | 218 | 219 |
| Wardeiniaid | 9 | 9 | 9 | 9 |
| Gweithlu | 20 | 21 | 5 | 6 |
| | 279 | 277 | 232 | 234 |

| Roedd y costau staffio fel a ganlyn: | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau* | 9,769 | 9,075 | 8,246 | 7,726 |
| Costau ac ardoll nawdd cymdeithasol | 1,050 | 917 | 909 | 800 |
| Cyfraniadau pensiwn | 244 | 230 | 141 | 137 |
| Addasiadau actiwaraidd | | | | |
| | 11,063 | 10,222 | 9,296 | 8,663 |

* Mae'r ffigwr cyflogau uchod yn eithrio taliadau diswyddo a wnaed am golli swydd. Yn 2025 roedd y cyfanswm yn £58K (2024 - £72K).

## NODIADAU I GYD-FYND GYDA'R DATGANIADAU ARIANNOL
## Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

### 8. LLOG DERBYNIADWY

| | Grŵp 2025 £'000 | Grŵp 2024 £'000 | Y Gymdeithas 2025 £'000 | Y Gymdeithas 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Llog ar gyfrifon banc a'r farchnad arian | 173 | 403 | 141 | 379 |
| Llog arall | - | 1 | - | 1 |
| | 173 | 404 | 141 | 380 |

### 9. LLOG TALADWY

| | Grŵp 2025 £'000 | Grŵp 2024 £'000 | Y Gymdeithas 2025 £'000 | Y Gymdeithas 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Llog ar fenthyciadau | 4,573 | 4,517 | 4,589 | 4,517 |
| Llog wedi'i gyfalafu | (497) | (250) | (497) | (250) |
| Llog wedi ei dalu ar atebolrwydd pensiwn budd diffiniedig | 192 | 175 | 176 | 161 |
| Taliadau cyllido eraill | 158 | 193 | 158 | 193 |
| | 4,426 | 4,635 | 4,426 | 4,621 |

### 10. GWARGED GWEITHREDOL

Nodir y gwarged gweithredol ar ôl cymhwyso'r isod:

| | Grŵp 2025 £'000 | Grŵp 2024 £'000 | Y Gymdeithas 2025 £'000 | Y Gymdeithas 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Dibrisiant – asedau sy'n eiddo i'r Gymdeithas | 4,420 | 4,376 | 4,392 | 4,346 |
| Amorteiddio – grantiau wedi'u cyfalafu | (2,801) | (2,744) | (2,801) | (2,744) |
| Taliad yr archwilydd allanol (eithrio TAW): | | | | |
| - Yn ei swyddogaeth fel archwilydd | 60 | 33 | 50 | 33 |
| - Gwasanaethau eraill | 1 | 2 | 1 | 2 |

### 11. TRETH GORFFORAETHOL

**Y Rhiant Gymdeithas**

Certain activities within Grŵp Cynefin is liable to UK Corporation Tax although it has charitable status with Mae rhai gweithgareddau penodol gan Grŵp Cynefin yn atebol i Dreth Gorfforaethol y Deyrnas Unedig er bod ganddo statws elusennol gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac mae ganddo' r hawl i'r eithriadau a roir gan Adran 505 y Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaethol 1988.

**Yr is-gwmnïau**

Mae rhai gweithgareddau penodol gan Canllaw (Eryri) Cyfyngedig a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn atebol i Dreth Gorfforaethol y Deyrnas Unedig, er ei fod yn elusen eithriedig sydd â'r hawl i'r eithriadau a roir gan Adran 505 y Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaethol 1988.

Mae Cywaith Cyfyngedig yn gwmni segur a byddai'n atebol i dalu Treth Gorfforaethol y Deyrnas Unedig gan ei fod yn gwmni cofrestredig.

# NODIADAU I GYD-FYND GYDA'R DATGANIADAU ARIANNOL
## Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

### 12. ASEDAU SEFYDLOG - ASEDAU ANNIRIAETHOL

| | Y Grŵp a'r Gymdeithas | |
|---|---|---|
| | Meddalwedd Tai £'000 | Meddalwedd Tai £'000 |
| **Cost** | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 1,124 | **1,124** |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 1,124 | **1,124** |
| **Dibrisiant** | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 681 | **681** |
| Cost am y flwyddyn | 110 | **110** |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 791 | **791** |
| **Gwerth llyfr net** | | |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 333 | **333** |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 443 | **443** |

## 13. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL
## EIDDO TAI – Y GRŴP A'R GYMDEITHAS

| | Tai Rhent | | Rhanberchnogaeth | Eiddo a leswyd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cynlluniau a gwblhawyd | Cynlluniau sy'n cael eu hadeiladu | Cynlluniau a gwblhawyd | Les Hir | Les Byr | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 340.885 | 21,158 | 3,958 | 9,838 | 72 | 375,911 |
| Ychwanegiadau | - | 14,428 | - | - | - | 14,428 |
| Cynlluniau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn | 21,416 | (21,429) | - | 13 | - | - |
| Ychwanegu cydrannau mewn eiddo sy'n bodoli eisoes | 7,205 | - | - | 335 | - | 7,540 |
| Cydrannau wedi eu tynnu ymaith | (1,029) | - | - | (31) | - | (1,060) |
| Gwaredu | (219) | - | - | - | - | (219) |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 368,258 | 14,157 | 3,958 | 10,155 | 72 | 396,600 |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 45,507 | - | 787 | 2,991 | 67 | 49,352 |
| Cost am y flwyddyn | 3,844 | - | 8 | 159 | - | 4,011 |
| Cydrannau wedi eu tynnu ymaith | (808) | - | - | (23) | - | (831) |
| Gwaredu | (14) | - | - | - | - | (14) |
| Ar 31 Mawrth 2025 | 48,529 | 0 | 795 | 3,127 | 67 | 52,518 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | | |
| Ar 31 Mwrth 2025 | 319,729 | 14,157 | 3,163 | 7,028 | 5 | 344,082 |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 295,378 | 21,158 | 3,171 | 6,947 | 5 | 326,559 |

Mae'r ychwanegiadau i eiddo tai yn cynnwys gwariant staff datblygu wedi'i gyfalafu gwerth £586k (2024 - £556k) a gwariant llog wedi'i gyfalafu gwerth £497k (2024 - £250k). Mae'r costau ychwanegiadau cydrannau'n cynnwys costau staff wedi'u cyfalafu o £167k (2024 £80k).

Mae ychwanegiadau cydrannol i eiddo presennol yn cynnwys £223k o TACP (Rhaglen Ariannu Grant Cyfalaf Llety Trosiannol), £3.05M o ORP (Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio) a grant gwelliannau ychwanegol o £231K.

# NODIADAU I GYD-FYND GYDA'R DATGANIADAU ARIANNOL
## Y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

### 14. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL CYFUNOL – ASEDAU SEFYDLOG ERAILL

